

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Ionawr 2014

Rhif 440

50c

Dod a bywyd yn ôl i'r Stryd Fawr



(Mae Llais Ogwan yn falch o gael cyhoeddi'r erthygl hon sy'n trafod menter newydd ar Stryd Fawr Bethesda. Mewn cyfnod pan mae cymaint o fusnesau bychain teuluol yn cau a'n trefi a'n pentrefi'n colli gwasanaethau o bob math mae'n braf clywed am griw o bobl gyda'r ynni a'r weledigaeth i geisio atal y dirywiad. Gol.)

SIOP OGWEN

Mae'n siŵr bod y rhai craff ymhlith darllenwyr y Llais wedi sylwi bod gwaith adeiladu wedi bod yn mynd ymlaen yn hen siop ddodrefn Alfred C Jones ar Stryd Fawr Bethesda ers cyn y Nadolig.

Bu'r siop yn wag am bedair blynedd cyn i Bartneriaeth Ogwen ei phrynu ym mis Tachwedd y llynedd. Cychwynodd y bartneriaeth fel is-bwyllgor o dri Chyngor Cymuned y Dyffryn gyda'r bwriad o ddod â gwasanaethau yn ôl i'r ardal, ond mae bellach wedi ei sefydlu fel Cwmni di-elw.

Gyda phwysau ariannol ar y sector gyhoeddus o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol agos – ynghyd â dirywiad y Stryd Fawr -

mae Partneriaeth Ogwen yn gweld y pryniant yma yn gyfle euraidd i ddod â bwrlwm yn ôl i'r fro.

Yr Heddlu ac eraill ar gael

Gweledigaeth yr aelodau yw y bydd yr adeilad, a enwir yn Siop Ogwen, yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau a gollwyd o'r ardal, ac mae'r bartneriaeth yn falch iawn o gyhoeddi y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn symud eu hunig swyddfa yn Nyffryn Ogwen i'r ganolfan newydd ar y Stryd Fawr.

Dywedodd Dafydd Meurig, Cadeirydd Partneriaeth Ogwen, "Yr ydym wedi bod yn cydweithio gyda gwahanol gyrff a gobeithiwn y bydd hynny'n parhau i'r dyfodol".

Yn ogystal â bod yn gartref parhaol i'r Heddlu yn y Dyffryn, bydd

swyddfa Siop Ogwen ar gael i'w defnyddio gan glercod Cyngorau Cymuned yr ardal yn ogystal ag asiantaethau eraill. Mae bwriad hefyd i ddarparu gofod yn y siop ar gyfer crefftwyr a chynhyrchwyr lleol sy'n awyddus i arddangos eu cynnyrch. Bydd lloriau uchaf yr adeilad yn cael eu troi yn fflat o ansawdd uchel fydd ar gael am rent rhesymol i rywun lleol sy'n dymuno byw a gweithio yn eu cynefin.

Mae pryniant yr adeilad yn ffrwyth llafur dwy flynedd o waith caled ar ran aelodau Partneriaeth Ogwen a swyddogion Cyngor Gwynedd i sicrhau cymorth ariannol digonol. Cafwyd £50,000 tuag at y pryniant gan gynllun 'Cymunedau Cynaliadwy' a weinyddir gan Gyngor Gwynedd, a daeth gweddill yr arian o Gronfa CAE, Heddlu Gogledd Cymru a'r Gronfa Buddsoddi Cymunedol.

Mae disgwyl i'r gwaith adnewyddu gymryd hyd at fis Mai eleni, ond y cyfamser bwriad Partneriaeth Ogwen yw penodi Prif Swyddog a fydd yn gweithio'n llawn amser o'r swyddfa yn Siop Ogwen pan fydd yr adeilad yn barod.

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan

at y flwyddyn newydd

£4.00 yn y siopau lleol

neu ffoniwch

Dafydd Fôn Williams

01248 601583

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

- Derfel Roberts** ☎ 600965
hylaw@btinternet.com
- Ieuan Wyn** ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk
- Lowri Roberts** ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com
- Dewi Llewelyn Siôn** ☎ 07901
dewision@hotmail.co.uk 913901
- Fiona Cadwaladr Owen** ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk
- Siân Esmor Rees** ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com
- Neville Hughes** ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan** ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard** ☎ 07402
trystanrp1@gmail.com 373444
- Walter W Williams** ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

- SWYDDOGION**
- Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trefnydd Hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com
- Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk
- Y Llais Drwy'r Post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Derfel Roberts.

Golygydd mis Chwefror fydd Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG. (01248 600297)
cylch@tiscali.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 05 Chwefror, os gwelwch yn dda. Plygu nos iau, 20 Chwefror, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

- Mis Ionawr 2014**
- 22 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.
- 25 Bore Coffi Cylch Meithrin.
Cefnfaes. 10.00 -12.00
- 28 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00
- 29 Cyfarfod Blynnyddol
Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 30 Merched y Wawr Bethesda.
“Llysiau Llesol Nain”. Cefnfaes am 7.00

- Mis Chwefror**
- 03 Merched y Wawr Tregarth. “Crwydro.”
Angharad Tomos. Festri Shiloh am 7.45.
- 08 Marchnad Ogwen.
Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00
- 15 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00
- 16 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
- 27 Merched y Wawr Bethesda.
Dathlu Gŵyl Ddewi. Cefnfaes am 7.00

- Mis Mawrth**
- 01 Bore Coffi Plaid Cymru.
Caffi Coed y Brenin. 10.00 - 12.00
- 08 Marchnad Ogwen,
Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 - 2.00

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

- Gwobrau Mis Ionawr**
- £30.00 (181) Eurwen Morris
Garnedd Uchaf, Bethesda
- £20.00 (185) Dafydd Roberts
Cae'r Wern, Tregarth
- £10.00 (103) Gwen Ellis, Pant y Gwair
Uchaf, Pont y Pandy.
- £5.00 (75) Annes Glyn,
Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas.

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

- Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40
- 
- Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

Rhoddion i'r Llais

- £10 Dr Gwen Gruffydd, Aberystwyth
- £10 Dr Elwyn Hughes, Ystradgynlais
- £ 5 Dienw, Bethesda
- £ 5 J Williams, 20 Glan Ffrydlas,
Bethesda
- £10 J. ac Ettie Evns, 10 Glan Ffrydlas,
Bethesda
- £20 Dienw
- £20 Dienw, Llandygái
- £25 Iolo a Nesta Williams, Tal y Cae,
Tregarth
- £10 Er cof annwyl am fy mam, Kitty
Mesach Owen, gynt o 14 Gernant,
Braichmelyn, ar ddydd ei phen-
blwydd, 21 Ionawr. Oddi wrth
Ogwena.
- £10 Er cof am ben-blwydd fy chwaer,
Helen (19 Ionawr 1950) “Dal mae
hiraeth yn fy nghalon”. David,
Heulwen a Pat.
- £4.50 Vernon Davies, Rachub.
- £10 Dienw, Rachub
- £10 Er cof annwyl am y diweddar John
Kenneth Hughes, Sŵn y Nant oddi
wrth Fiona, Dafydd, Gwenllïan,
Iestyn a Swyn

Diolch yn Fawr

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Annwyl Olygydd

**Arenig,
14, Erw Las,
Bethesda**

Annwyl Olygydd,
Hoffwn ddiolch o galon i'r canlynol, a fu'n cymryd rhan yn y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol a gynhaliwyd yng Nghapel Jerusalem yn ddiweddar:

Côr y Dyffryn, Corau Ysgol Dyffryn Ogwen, Hefin Evans, Manon Hughes, Neville Huws, Alun Llwyd, Angharad Llwyd, Rhiannon Llwyd, Jenni Lyn, John Ogwen, Barbara Owen, Elin Roberts, Gwenno Roberts, Lowri Roberts, Beti Rhys, Ffion Rowlinson, Paul Rowlinson.

Hyfryd oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn wedi ymgynnull ar gyfer noson ag iddi naws mor arbennig, ac mae fy nyled yn fawr i bobl yr ardal am eu cefnogaeth.

Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o dros £465.00 tuag at waith Cymorth Cristnogol yn ynysoedd y Philipinau.

Yn gywir iawn,
Menai Williams

Yr Ymgyrch i Warchod Coetmor

Dim Sail Dros Ddatblygu

Mae tystiolaeth sy'n dangos yn gwbl glir nad oes dim sail dros godi stad 69 o dai ym Methesda, Gwynedd. Ni ddylid bod wedi clustnodi'r safle yn y lle cyntaf oherwydd roedd yn groes i ganllawiau'r cyngor sir ei hun, ac ni ddylai fod wedi ei gynnwys yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001-2016 fel tir i'w ryddhau ar gyfer ei ddatblygu.

Mae dogfen a gyhoeddwyd gan Gyngor Gwynedd yn dangos nad oedd dim cyfiawnhad dros ddynodi'r tir yng Nghoetmor ar gyfer ei ddatblygu. Mae'r dogfen, sef Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd : Ymchwiliad Cyhoeddus - Papur Cefndir - Dosbarthiad Aneddeoledig, Ffiniau Datblygu a Dewis Safleoedd Dynodedig Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, yn cyfeirio at fwriadau'r cyngor mewn perthynas â rhyddhau tir i'w ddatblygu mewn gwahanol fathau o ardaloedd o fewn y sir. Rhestrir Bethesda efo'r ardaloedd sy'n dod o dan y diffiniad Canolfannau Lleol, ac wrth gyfeirio at yr ardaloedd hynny, a'r math o ddatblygiadau y gallent ymdopi â nhw, mae'r ddogfen yn nodi fel a ganlyn:

"Gallant ymdopi gyda dynodiadau cymhedrol o dai marchnad agored, lle mae angen hynny, heb amharu ar eu cymeriad gwledig." (2.14)

Yn y datganiad uchod mae tri maen prawf, sef nifer cymedrol o dai, yr angen am dai newydd, a gwarchod cymeriad gwledig yr ardal. Dweud y mae'r cyngor sir na ddylid rhyddhau tir os ydi'r datblygiad yn mynd i fod yn rhy fawr; os nad oes tystiolaeth i ddangos bod angen y datblygiad; ac os ydi'r datblygiad yn amharu ar gymeriad gwledig yr ardal.

Wrth ryddhau'r tir dan sylw yng Nghoetmor, mae'r cyngor sir wedi mynd yn groes i'w bolisi ei hun. Er mwyn dangos hynny, rydym wedi edrych ar y tri maen prawf.

1. Nifer cymedrol o dai. Ni ellir ar unrhyw gyfrif ddadlau bod codi 49 o dai ar y farchnad agored (efo 20 o dai fforddiadwy) yn ddatblygiad "cymedrol". Pa nifer sydd "gymhedol"? Gan fod y cwestiwn hwn yn fater cymharol yn dibynnu ar y cyd-destun, y cwestiwn i'w ofyn ydi a fyddai'r nifer o dai yn operi newid sylweddol? Yn achos codi 69 o dai yng Nghoetmor, mae'r ateb yn amlwg. Byddai. Mae stad o'r maint hwn yn amlwg yn rhy fawr, ac yn sicr o gael effaith ar natur y gymuned leol. Ni ellir cael datblygiad o'r math yma heb achosi newid yng nghymeriad y gymdeithas. Nid cryfhau cymdogaeth Coetmor fyddai codi stad 69 o dai ond ei newid yn sylweddol. Byddai'n debygol o newid cymeriad ieithyddol a diwylliannol y gymdeithas. Efo 69 o dai yn ychwanegol, byddai cymdogaeth Coetmor, a chymuned Dyffryn Ogwen, yn sicr o newid yn sylweddol.

2. Yr angen am dai newydd. Mae'r canllawiau cynllunio a ddyfynnir uchod yn nodi'n glir "lle mae angen hynny", ac eto mae'r cyngor sir yn cydnabod nad yw eu polisi cynllunio wedi ei seilio ar arolygon anghenion tai yn y gymuned leol. Mae'r cyngor sir wedi cydnabod nad oes arolwg o anghenion tai wedi ei gynnal yn lleol, ac nad yw'n fwriad yn y dyfodol chwaith. Felly, dopes dim tystiolaeth sy'n dangos bod angen stad 69 o dai yng Nghoetmor.

3. Gwarchod cymeriad gwledig yr ardal? Tir glas yw'r safle dan sylw yng Nghoetmor. Mae'n dir amaethyddol da ar ymylon Bethesda, ac felly mewn rhan o Ddyffryn Ogwen sy'n fwy gwledig ei gymeriad. Byddai codi stad 69 o dai yn cyfrannu i ddifetha cymeriad gwledig y rhan hon o'r dyffryn. (Rydym eisoes wedi pwysleisio mai'r polisi cynllunio addas fyddai codi clystyrau bychain o dai, a hynny ar wasgar yn yr ardal, yn unol â'r gofyn lleol, fel eu bod yn plethu i mewn i wead y gymdeithas.)

Gwelir felly na ddylai'r tir dan sylw yng Nghoetmor fod wedi cael ei glustnodi ar gyfer ei ddatblygu. Sut fedr Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd argymhell cymeradwyo datblygiad sy'n groes i ganllawiau polisi cynllunio y cyngor ei hun?

Dim Adroddiad Iaith ar Gael

I wneud y sefyllfa'r fwy anfoddhaol byth, rydym wedi cael gwybod gan Gyngor Gwynedd na chafodd adroddiad asesiad ardrawiad iaith ei lunio pan oedd y cyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Unedol 2001-2016 ac yn ystyried pa diroedd y dylid eu rhyddhau ar gyfer eu datblygu. Roeddem wedi gwneud cais i Uned Polisi Cynllunio y cyngor am gopi o'r model a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad ac am gopi o'r adroddiad yn nodi canfyddiadau a chasgliadau'r asesiad. Yr ateb a gawsom gan yr Uned oedd nad oedd adroddiad wedi ei lunio. Rydym yn holi ymhellach ynghylch y diffyg difrifol hwn. Dyma reswm arall dros wrthod caniatâd cynllunio i'r datblygiad arfaethedig yng Nghoetmor.

Pwyllgor Diogelu Coetmor

Mae'r cyngor sir wedi rhoi gwybod inni eu bod wedi derbyn cannoedd o lythyrau yn gwrthwynebu'r cais cynllunio. Ydych chi wedi anfon llythyr?

Gallwch anfon llythyr copi caled at Glyn Llewelyn Gruffudd, Uwch Swyddog Cynllunio, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA, neu lythyr e-bost (ar ffurf neges neu atodiad) i: cynllunio@gwynedd.gov.uk

Dyma batrwm i chi ei ddefnyddio, os dymunwch:

Annwyl Glyn Llewelyn Gruffudd,

Cais Cynllunio C13/0412/13/AM (stad 69 o dai ar dir ger Maes Coetmor, Bethesda)

Dymunaf ddatgan fy ngwrthwynebiad i'r cais cynllunio uchod oherwydd nid yw nifer y tai, sef 69, yn seiliedig ar arolwg lleol o anghenion tai, a byddai'n debygol o wanychu sefyllfa'r Gymraeg yn Nyffryn Ogwen. Gofynnaf i Gyngor Gwynedd gomisiynu asesiad ardrawiad iaith o'r datblygiad arfaethedig.

Yn gywir

Cyllid ar gyfer hyrwyddo cymunedau Gwynedd

Os ydych yn ymwneud â grŵp cymunedol neu wirfoddol yng Ngwynedd, gallech fod yn gymwys am hyd at £2,500 o gyllid tuag at hyrwyddo a marchnata canol eich tref leol.

O gynhyrchu arwyddion a phosteri sy'n hysbysebu digwyddiad, i ddatblygu gwefan sy'n hyrwyddo'ch ardal fel lle gwyh i ymweld â hi – gall grwpiau cymunedol wneud cais am hyd at 75% o'u costau.

Mae Cronfa Marchnata a Hyrwyddo Canol Tref Gwynedd ar agor tan 31 Mawrth 2014, a'i phrif nod yw cefnogi mentrau sy'n cynyddu nifer yr ymwelwyr a rhoi hwb i economi canol ein trefi.

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, aelod Cabinet Gwynedd dros yr Economi a Chymunedau:

Bywiogi Canol Trefi

"Mae gan y Cyngor £15,000 fel rhan o'n

cynllun tair blynedd Bywiogi a Gwella Canol Tref. Gall mudiad cymunedol, cyngor tref neu gymuned neu grŵp busnes wneud cais am hyd at £2,500 i farchnata neu hyrwyddo canol trefi.

"Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sydd am wella canol eu tref. Er enghraifft, gallai'r arian fynd tuag at gynllunio ac argraffu pamffledi ar gyfer ymwelwyr, gwneud arwyddion a baneri ar gyfer atyniadau lleol neu hyrwyddo cyfres o ddigwyddiadau.

"Mae arian hefyd ar gael i gynrychiolwyr fynychu sioeau masnach neu ddigwyddiadau eraill sydd yn llwyfan ar gyfer hyrwyddo ardaloedd neu weithgareddau penodol."

Am fwy o wybodaeth, a chopi o'r canllawiau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais, cysylltwch â thîm Cist Gymunedol Gwynedd ar 01286 679153.

Mae taliadau yn cael eu dyfarnu ar sail 'y

cyntaf i'r felin' ac ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol 2013/14 yn unig. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod os ydynt wedi bod yn llwyddiannus ai peidio o fewn pythefnos o gyflwyno'u cais.

FFLAT AR OSOD

**Rhes Ogwen, Bethesda
3 ystafell wely**

Am fwy o fanylion:

Cwmni Adwy Cyf

**01286 685 225 / 01286 685 205 /
01286 685 206**

Bethesda

Liên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐☎ **601902**

Dyweddiad
Llongyfarchiadau i Ffion Mai Roberts a Dewi Lloyd Jones, 2 Tan Rhiw Tregarth ar eu dyweddïad ar 15 Rhagfyr 2013. Pob dymuniad da am ddyfodol hapus a llewyrchus i’r ddau ohonoch gan y teulu i gyd.

Diolch
Dymuna Carol Thomas, 33 Abercaseg, ddiolch i bawb am y cardiau a’r anrhegion ar ei phen-blwydd yn 65 oed.

Pen-blwydd
Dathlodd Cara Ashton, Erw Las, ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar 12 Rhagfyr 2013. Pob dymuniad da iti Cara.

Ysbyty
Cofion cynnes a gwellhad buan i’r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar:-
Mrs Parry, Adwy’r Nant;
Mrs Sheila Evans, Abercaseg;
Mr Thomas Jones, Rhos-y-Coed;
Mr John Roberts, Ffordd Pant.

Priodas Ruddem
Llongyfarchiadau i Gwyn a Rhian Roberts, Rhes Victoria ar achlysur dathlu eu priodas Ruddem ar 28 Rhagfyr 2013.

Babi Newydd
Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Marc Dignam ar enedigaeth merch fach ar 19 Rhagfyr 2013. Chwaer fach i Joshua.

Llongyfarchiadau hefyd i Nain a Taid, Rhes Pen-y-bryn a Ffordd Stesion, sef Mr a Mrs K. Evans a Mr a Mrs J. Dignam. Hefyd i’r ddwy hen-nain, sef Mrs Nancy Evans, Rhes Pen-y-bryn a Mrs Nancy Williams, Ffordd Stesion.

Marwolaeth
Ar 13 Rhagfyr 2013, yn sydyn yn ei chartref, 15 Plas Popty, Bangor, a gynt o 22 Rhes Ogwen, bu farw Vanessa Charmaine Williams yn 49 oed. Merch annwyl Mr a Mrs Gareth Williams, Rhes Ogwen a chwaer hoffus Nigel a Simon a modryb Amy. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener, 20 Rhagfyr, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Coetmor.

Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich profedigaeth o golli merch a chwaer annwyl.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr John Williams, Arafa Don, a’r teulu yn eu profedigaeth o golli ei chwaer ar ddydd Nadolig, sef Mrs Betty Davies, Rachub.

Gorffwysfan, Stryd Fawr
Ar ddydd Mercher, 15 Rhagfyr, bu’r aelodau ar wibdaith Nadolig i Bodnant Bwyd Cymru am goffi a mymryn o siop ac wedyn i Westy Glan Aber, Betws y Coed am ein cinio Nadolig. Wedi cinio cafwyd raffl fawr wedi ei threfnu gan Vernon, a diolch i’r aelodau am y gwobrau. Diolchwyd i bawb gan y Cadeirydd, Mr Eric Jones.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Mrs Margaret Williams a’r teulu, Rhos-y-coed yn eu profedigaeth o golli nith. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Glenys Jones a’r teulu, Adwy’r Nant a Mrs Jean O Jones a’r teulu, Coetmor.

Ysbyty
Dymunwn wellhad buan i Nicola Hughes, Sŵn y Nant a gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen Lerpwl ym mis Tachwedd ac yna llawdriniaeth bellach ym mis Rhagfyr yn Ysbyty Brenhinol Manceinion lle y bu’n rhaid iddi dreulio cyfnod y Nadolig. Brysia wella, Nicola, a phob dymuniad da yn y dyfodol.

Diolch
Mae Cara Aston, Erw Las yn dymuno diolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Dymunwn ninnau yn dda iti hefyd Cara.

Hoffai Siôn, John a Gwenllïan, Erw Las ddiolch o galon i weithwyr Chwarel Penrhyn am eu rhodd ariannol i Siôn. Maent yn gwerthfawrogi cefnogaeth y gymuned ar adeg mor anodd. Diolch yn fawr i bawb.

Clwb Cerdded Bethesda
Hoffai pawb yn y Clwb Cerdded ddiolch o galon i aelodau Eglwys Maes y Groes, Talybont, am baratoi y fath wledd ar ein cyfer ddydd Mawrth, 7 Ionawr. Diolch hefyd am y croeso cynnes sydd i’w gael ganddynt bob mis o'r flwyddyn yn yr Ysgoldy Bach. Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn!

Sefydliad y Merched, Carneddi

Dyma ni ar ddechrau blwyddyn arall, sef 2014, ac ar yr ail o Ionawr cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf o’r flwyddyn ar noson stormllyd. Serch hynny roedd y croeso yn gynnes iawn gan ein llywydd newydd, Margaret Williams. Dymunodd flwyddyn newydd dda i’r aelodau i gyd, ond yn anffodus roedd ychydig o ymddiheuriadau gan rai oherwydd gwahanol amgylchiadau.

Darllenwyd cofnodion mis Rhagfyr gan Jean Hughes ac fe aeth Margaret ymlaen i ddarllen y llythyr misol, a thrafodwyd rhai o’r pynciau. Y prif bwnc oedd y ffaith y bydd Sefydliad y Merched yn dathlu 100 mlwyddiant y flwyddyn nesaf ac felly bydd llawer o weithgareddau yn cael eu cynnal drwy’r wlad ac yn terfynu yn yr Albert Hall yn Llundain ar 4 Mehefin 2015.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Dafydd Morris, brodor o’r ardal, yn athro wedi ymddeol, yn sgotwr a cherddwr o fri, ond ddim yn gwneud hyn mor aml yn awr ac yn difyrru ei hun yn barddoni, fel y gwelwn yn win papur bro, Llais Ogwan.

Straeon am gymeriadau a hanesion digri a rhai ysbrydion oedd ganddo heno. Cawsom noson ddifyr iawn yn ei gwmni a diolchwyd iddo gan Margaret Williams ac i’r gwestwragedd am y baned. Enillydd y raffl oedd Beti Williams, yn rhodd gan Margaret Williams.

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd yn y pentref, a phob bendith.

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Cinio Nadolig
Ar yr ail o Ragfyr, cawsom fwyhau ein Cinio Nadolig yng ngwesty Royal Oak, Betws y Coed, dan drefniant trylwyr Jean a Gwenno.

Anerchiad y Llywydd (Y Fns. Elena Owen)
Wedi dymuno Nadolig Llawen i bawb, llongyfarchwyd Megan Wyn ar drothwy pen-blwydd arbennig yn 90 oed. Yna, trosglwyddwyd gwybodaeth fod y Pwyllgor Anabl yn casglu ar gyfer yr elusen ‘Lloches i Ferched’ ac yn awyddus i dderbyn rhoddion o ddillad merched a phlant, offer ymolchi, a.y.b. Mae llawer o ferched yn wynebu trais yn eu cartrefi a’r plant hefyd yn dioddef oherwydd hyn. Gwerthfawrogwn unrhyw gyfraniad.

Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod mis Ionawr gyda Rhiannon Parry yn trafod ‘Llysiau Llesol Nain’.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis
Cymun Bendigaid – 8.00am
Gwasanaeth Teuluol – 11.00am
Ail a thrydydd Sul pob mis -
Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis -
Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul -
Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)
Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Arch Noa - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae’n cyfarfod yn Ysgol Abercaseg pob bore Llun am 9.15am.

Croeso cynnes i bawb i’r gwasanaethau uchod.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chwi i gyd.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda a Bendithiol i bawb yn y plwyf.

Llongyfarchiadau



"Llongyfarchiadau i Richard Aled Griffith o Ffordd y Stesion, Bethesda, ar ei lwyddiant yn Hyfforddiant Cyfnod Un y Fyddin. Pob llwyddiant iddo yng Nghyfnod Dau. Cariad mawr oddi wrth Mam, Dad Alwen Haf a Heather xxx"

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

‘LLENWI’R CWPAN’

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o’r gloch a
hanner dydd

CAPEL BETHANIA BETHESDA

Ni chynhelir oedfaon ym Mis Ionawr a Chwefror.
Mis Mawrth
02 Mr. Glyn Owen.
16 Parchg. Gwynfor Williams.

Oedfaon am 5.30
Croeso Cynnes i Bawb

Yr Eglwys Unedig

*Tyred, O, Seren siriol,
Tyred i arwain dyn
Eto ar lwybrau’r doethion
At grud y Sanctaidd Un.*

Gwasanaethau i’w cofio.

Ar y 3ydd, cynhaliwyd cyfarfod gweddi dan ofal Jean, gyda Mair, Elna, Megan Wyn a Minnie yn cynorthwyo, i gyfeiliant Eileen Evans.

Ar y 12fed, cynhaliwyd Cymdeithas y Chwiorydd gydag Adloniant Nadoligaidd gan Gwenan Gibbard. Nid oedd yn noson gyfyngedig i ferched ac fe gawsom gynulleidfa dda o wŷr a merched, a phawb wedi llwyr fwynhau.

Ar fore’r 15fed, cawsom fwynhau Cyngerdd Nadolig gan blant yr Ysgol Sul a’r plant hŷn. Roedd yr holl ymarfer wedi talu ar ei ganfed a gwerthfawrogwn waith caled y plant a’r athrawon fu yn eu hyfforddi.

Ar yr 22ain,cafwyd gwledd yn y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol, gyda Chôr Ysgol Dyffryn Ogwen a Chôr y Dyffryn a llawer o artistiaid eraill. Fe wnaed casgliad at drychineb y Philipinau o £455.30. Yr oedd yr eglwys eisoes wedi casglu £810, ac felly yn gwneud casgliad terfynol o £1265.30. Diolch yn fawr i bawb am eu haelioni ac yn enwedig i’r Br. Griff Morris am ei waith caled gyda Chymorth Cristnogol.

Ar fore’r Nadolig, gweinyddwyd Sacrament gan y Parchedig John Owen ar y thema ‘Goleuni’, a’r gwasanaeth i gyd wedi ei drefnu’n gywrain.

Estynnwn longyfarchion i’r canlynol :-

I’r Br. Emlyn Evans ac i’r Fns. Megan Wyn Phillips ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn 90 oed.

Priododd Darren, mab y Fns. Marion Sullivan yn ddiweddar a dymunwn y gorau i’r pâr hapus yn eu cartref yn Llundain. I Angharad ac Elfed ar eu dyweddiad. Mae Angharad yn ferch i Owen John ac Angharad Efans.

I Huw Geraint, wŷr i Myfanwy Jones, Gwernydd, sydd wedi dyweddïo.
I Muriel Williams, Garneddwen ar ddod yn hen nain am y 3ydd tro. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Cydymdeimlwn â Rhiannon Efans a Mair Jones sydd wedi colli modryb ym Manceinion.

Diolchiadau. I Heulwen ac wyth o’r plant hŷn am eu gwaith yn addurno’r Capel mor hardd ar gyfer y Nadolig.
I Menai a Lowri am gynnal Clwb Nos Fawrth i ofalu am yr ieuanc ac i Walter a Menai am gludo rhoddion y Banc Bwyd i’r anghenus. Derbyniwyd llythyr o werthfawrogiad gan y Banc Bwyd yng Nghaernarfon.

Adnod y mis. Y mae’r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw’r tywyllwch wedi ei drechu ef. Ioan 1.5

Oedfaon i ddod.

19 Ionawr Parchedig Pryderi Ll. Jones.
26 Ionawr Br. Dafydd Iwan
02 Chwefror Parchedig W.H. Pritchard.
09 Chwefror Parchedig D.C. Williams.
16 Chwefror Parchedig Trefor Lewis.



Gwasanaeth Nadolig Eglwys Unedig Jerusalem, Bethesda.

Trosglwyddo £407 i’r Tŷ Gobaith

Dyna a wnaeth Linda, Neuadd Glasgoed, Penisarwaun, dridiau cyn y Nadolig y flwyddyn 2013, a hynny ar ran D.N. Roberts ei thad, Martin ei brawd, a’r teuluoedd oll i gyd. Bu farw Mair Roberts, yn wreiddiol o Garneddi, Bethesda, ar y dydd olaf o fis Awst y flwyddyn 2013. Yn ei chynhebrwng ym Mhenisarwaun casglwyd arian er cof amdani. Ei dymuniad oedd gweld yr arian yn cael ei ddefnyddio er budd Tŷ Gobaith lles y plant a phobl ifanc, yn ogystal â’r staff goruchwyllo a geir yn y canolfannau. Y mae’r teulu yn diolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd arian er cof am Mair.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Blwyddyn Newydd Dda
i holl drigolion Glasinfryn, Waen Wen a Chaerhun. Cofiwch anfon eich newyddion ata’i yn ystod 2014, boed hynny trwy gyfrwng e-bost, neu trwy’r post neu’r ffôn. Dwi’n edrych ymlaen at glywed gennyhch.

Bingo Nadolig
Daeth nifer dda ynghyd i’r Bingo Nadolig a gynhaliwyd yn y Ganolfan yng Nglasinfryn i godi arian at Ysgol Pendalar, Caernarfon ar 6 Rhagfyr. Gwnaed elw o £112. Diolch yn fawr iawn i nifer o drigolion yr ardal am eu rhoddion tuag at wobrau'r raffl, ac i Mary, Myra ac Ann am gynnal Tombola. Ni fydd Bingo yn cael ei gynnal ym mis Ionawr a Chwefror.

Clwb Cant y Ganolfan

Rhagfyr
£20 - 94 Carol Roberts, Caerhun
£10 - 49 Carol Williams
£ 5 - 20 Peter Banham
£ 5 - 5 Mair Banham

Bonws Nadolig - 37 Harry Dunn

Cadw Gwenyn

Anghofiwech y tywydd llwyd a gwlyb tu allan. Cofiwch brynawn yn yr ardd haf llynedd. Ar bob blodeuyn, ar bob perth, mae gwenynen yn cario’r neithdar a’r pail i’w chwch gwenyn.

Gallwch chi gadw’ch gwenyn eich hun. Meddyliwch am lond silff o botiau o fêl oren neu felyn wedi cynhyrchu gan eich gwenyn chi.

Am fanylion pellach ewch i wefan Cymdeithas Gwenynwyr Cymru (www.wbka.com) lle gwerch rifau cyswllt cymdeithasau yn eich ardal chi.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Ysbyty
Anfonwn ein cofion a'm dymuniadau gorau i nifer sydd yn dioddef o salwch yn yr ardal. At Pearl Evans, Stryd Britannia ac Alice Jones, Tan y Garth sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Dyweddïo
Llongyfarchiadau i Siân Wyn Jones, Lôn Groes a Nick Williams o Fangor ar eu dyweddïad dros y Nadolig. Dymuniadau gorau iddynt oddi wrth Andrew, Laura a Macsen, Nain Gwyneth, Peter, Janice, Freddie a Morgan a'r teulu oll..

Dyweddïo
Llongyfarchiadau i Huw Geraint Jones, Bron Arfon a Catrin Roberts, Ffrwd Galed, Tregarth ar eu dyweddïad dros y Nadolig.

Cydymdeimlo
Ar ddydd Nadolig bu farw un o gymeriadau'r ardal, Mrs Betty Wyn Davies, 'Rhen Ysgol a hithau'n 83 mlwydd oed. Un o Fryntirion oedd Mrs Davies yn wreiddiol ond bu'n byw am gyfnod helaeth ym Maes Bleddyn gyda'i diweddar ŵr Dennis. Magwyd iddynt chwech o blant a teilwng dweud fod eu gofal yn fawr dros y teulu. Roedd Mrs Davies yn weithgar gyda chlwb Pêl Droed llwyddiannus Llechid Celts yn gwneud panad i'r chwaraewyr ar hanner amser. Rhaid dweud ei bod yn gefnogwr brwd i Llechid Celts yng nghanol chwedegau'r ganrif ddiwethaf, tîm a gafodd lwyddiant mawr yn ystod y cyfnod. Nid oedd Mrs Davies yn un am gadw'n dawel os teimlai fod y tîm yn cael cam. Ni fu ei hiechyd yn rhy dda ers blynnyddoedd ac fe symudodd i dai 'Rhen Ysgol. Treuliodd gyfnod yn ysbyty Gwynedd ym misoedd yr Hydref, ac wedi dod adref i 'w chartref teimlodd garedigrwydd a gofal mawr y plant a'u teuluoedd i gyd drosti. Cynhaliwyd eu hangladd ar 2 Ionawr gyda gwasanaeth dan ofal y Parch Dafydd Coetmor Williams yng Ngharmel ac yna ym mynwent Coetmor. Anfonwn ein cydymdeimlad at David, Gwenda, Alun, Maureen, Mair a Keith a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl.

Clwb Hanes Lleol
Bydd y clwb yn cyfarfod yn Festri Carmel ar Nos Fercher, 29 Ionawr 2014. Gobeithir dangos ffilmiau o'r ardal a'i chymeriadau yn niwedd yr ugeinfed ganrif. Bydd croeso mawr i chwi ymuno gyda ni am 7.00 o'r gloch. Noson anffurfiol a gobeithio y gwnaiff y ffilmiau ddeffro'r cof ac esgor ar nifer o storïau ag atgofion wedi i chwi weld y ffilmiau.

Baban Newydd 2014
Llongyfarchiadau i Gavin Pritchard ac Anita Hughes ar enedigaeth merch, Dela, a hynny ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn.

Capel Bethel

Ionawr
19 Parchg Dafydd Job.
26 Parchg Huw Pritchard

Chwefror
02: Parchg Eleri Lloyd Jones
09: Y Gweinidog
16: Mr Islwyn Hughes
23: Parch. Dafydd Wyn Williams

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.

Carmel, Llanllechid Te Bach

Pnawn Llun 27 Ionawr
Festri Carmel,
2.30 - 4.00
Croeso Cynnes

CLWB HANES RACHUB a LLANLLECHID

Noson o Ffilmiau Lleol
7.00 o'r gloch
Nos Fercher 29 Ionawr
yn Festri Capel Carmel

Ymunwch gyda ni
Mynediad 50c.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Genedigaeth
Llongyfarchiadau mawr i Siân a Steffan, Rallt Isaf, ar enedigaeth mab, Jac, a hynny ar ddiwrnod olaf y flwyddyn. Dymuniadau gorau i chi fel teulu

Nain a thaid
Rydym yn gyrru ein llongyfarchiadau i Arfon a Mair Griffith, Ffordd Gerlan, ar ddod yn daid a nain unwaith eto, a hynny pan aned Jac, yn fab bach i'w merch, Siân, a'i phartner, Steffan.

Pen-blwydd arbennig
Llongyfarchiadau mawr i Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed ar ddydd Calan. Rydym i gyd yn y pentref yn gyrru ein cofion atat, Alun. Mor braf yw dy weld wedi gwella yn dilyn salwch, ac yn brasgamu o gwmpas y pentref eto.

Hanner cant
Erbyn i'r Llais ymddangos, bydd Richard Roberts, Ffordd Gerlan, wedi dathlu ei ben-blwydd yn hanner cant. Llongyfarchiadau mawr i ti, Dic, gobeithio'n fawr iti fwynhau'r dathlu ar yr achlysur arbennig.

Dymuniadau gorau
Gobeithio i chi i gyd gael Nadolig llawen, a blwyddyn newydd dda. Rydym wedi cael tywydd garw iawn dros y gwyliau; gobeithio na fu i neb ohonoch ddioddef unrhyw lanastr na difrod. Pob hwyl i bob un ohonoch yn 2014

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Diolch Pen-blwydd
Dymuna Ifan Jones, 1 Dolhelyg, ddiolch i bawb a gofiodd amdano ar achlysur ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch o galon!

Geni
Llongyfarchiadau i Sarah a Gareth, 10 Bro Emrys, ar enedigaeth eu merch fach, Seren Haf, ar 28 Rhagfyr.

Croeso
Mae Bill a Sarah Smith, a'u tri phlentyn, Chloe, Harry, a Mia, wedi ymgartrefu ym Mro Awel, Dolhelyg. Croeso cynnes i chi i bentref Talybont. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith!

Capel Carmel, Llanllechid

Bedydd
Bedyddiwyd Cian Amos Evans-Hughes Thomas, mab Sioned a Kerian Thomas yng Ngharmel gyda'r Parch Tecwyn Roberts yn gweinyddu.

Yr Ysgol Sul



Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y plant a'r bobl ifanc a'r thema eleni oedd, 'Goleuni'r Byd - Tywysog Tangnefedd.' Fel arfer gwnaeth yr ifanc eu gwaith yn rhagorol a chawsom i gyd fendith o gyd-addoli yn eu cwmni. Rhannwyd y casgliad o £100 rhwng yr Ysgol Sul ag apêl Haiti.

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig cynhaliwyd parti ar y cyd gydag aelodau Ysgol Sul Bethlehem, Talybont. Diolch i Angharad Thomasam ddod i gyfarwyddo'r dawnsio ac i Neville Hughes am gyfeilio gyda'r gitâr i'r canu carolau. Mawr yw'r diolch i athrawon a chyfeillion yr ysgol Sul am eu cymorth parod yn paratoi'r bwyd. Yn bwysicaf oll, diolch i Siôn Corn am alw heibio gyda siocled i bob un

Clwb Dwylo Prysor

Cymerodd aelodau'r Clwb ran agoriadol yng ngwasanaeth Nadolig capel Nant y Benglog drwy ddarllen o'r Beibl a chanu carolau. 'Roedd yn wasanaeth hyfryd iawn, a diolch i aelodau a'r gynulleidfa am roi croeso cynnes iddynt.

Wedi cymryd rhan yng ngwasanaeth Nadolig Carmel cafodd y bobl ifanc siawns i ymlacio, a hynny yng Nghanolfan Bowlio Deg, Llandudno ac yna pryd o fwyd yn McDonalds cyn cychwyn am adre.

Bore'r Nadolig
Cynhaliwyd gwasanaeth o ddarlenniadau amrywiol a chanu carolau ar fore'r ŵyl. Diolch i'r aelodau a'r bobl ifanc am gymryd rhan, ac yn arbennig i'r plant, Gwydion, Lucy, Charmaine a Mabon am ganu dwy garol mor swynol. Daeth cynulleidfa niferus i'r gwasanaeth a rhoddwyd y casgliad o £70 tuag ar Apêl Haiti.

Carmel, Llanllechid Trefn Gwasanaethau

Ionawr 2014
19 Parch Dafydd C. Williams 5.00
26 Parch Gwynfor Williams 5.00

Chwefror
02 Mrs Mererid M Williams 5.00
26 Parch Gwynfor Williams 5.00
09 Parch John L. Jones 5.00
16 Parch Gwyndaf Jones 5.00

Ysgol Sul 10.30 y bore
Dwylo Prysor, Nos Wener 6.30 pm

Croeso cynnes i bawb

Diolch

Dymuna Sheila Owen (Redfern, gynt), “Millbank”, Dolhelyg, ddiolch i’w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn ei damwain yn ei chartref y mis diwethaf. Diolch am yr holl gardiau, blodau ac ymweliadau wedi iddi ddod adref o’r ysbyty.

Capel Bethlehem

Ionawr

19 Parch Pryderi Llwyd Jones, Cricieth
26 : Mr Dafydd Iwan

Chwefror

02 : Parch W.H. Pritchard
09 : I’w gyhoeddi
16 : Parch Trefor Lewis
23 : Parchg. Cledwyn Williams, Bangor.

Oedfaon am 2.00
oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Bwrlwm Bethlehem

Dechreuodd y tymor newydd am 2.15 bnawn Iau, 9 Ionawr. Croeso i bawb alw am sgwrs a phaned bob bythefnos!

Ysgol Sul

Nid plant pob Ysgol Sul sydd yn cael dau barti Nadolig, ond diolch i Ysgol Sul Carmel Llanllechid am eu gwahoddiad caredig, mwynhaodd rhai o aelodau Bethlehem eu hail barti ar fore Sul, 22 Rhagfyr. Roedd hyn yn dilyn y parti a gafwyd ym Methlehem ar ôl iddynt gynnal yr Oedfa Nadolig ar 15 Rhagfyr.



Rhai o blant Ysgol Sul Bethlehem Talybont yn cael hwyl yn y Parti yng Ngharmel Llanllechid

Eglwys Maes y Groes, Talybont

Drwg oedd gennym glywed fod Sheila Owen wedi cael damwain yn ei chartref ddechrau’r mis. Treuliodd amser yn Ysbyty Gwynedd cyn cael ei symud i Ysbyty Stoke yn Swydd Stafford am lawdriniaeth. Mae hi bellach gartref ac yn gwella’n raddol bob dydd.

Nid yw Pat Morrell, Cap Coch, yn dda ei hiechyd ac yn treulio ychydig o wythnosau yng Nghartref Cerrig yr Afon. Gwellhad buan i’r ddwy.

Ar fore Sul y 1af o Ragfyr cynhaliwyd ein gwasanaeth carolau dan arweiniad ein ficer y Parchedig John Matthews gyda Geraint Gill wrth yr organ. Cymerwyd rhan gan aelodau’r Eglwys ac yn dilyn cawsom luniaeth ysgafn wedi ei drefnu gan Phyllis Davies.

Croeso gartref i Meirion Griffiths a’i deulu o Dde Affrica. Roeddent yn aros gyda mam Meirion, Mrs. Gracie Griffiths, yn “Llwyn y Wern”.

Yr un croeso i deulu Barry a Ivy Lill i Fro Emrys wedi teithio o ‘r America, Rhydychen a Lerpwl. Roedd y ddau deulu wedi mwynhau dathlu’r ŵyl yn ein cwmpeini.

Parti Nadolig Pobl Hŷn ar 3 Rhagfyr yn Neuadd Talgai yn diolch yn fawr am y wledd a’r croeso a gawsant y prynhawn hwnnw. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain ac yn ddiolchgar iawn, yn arbennig i Mrs Myfanwy Jones, pwyllgor y neuadd a phawb arall a fu’n gweithio’n galed i wneud y parti yn gymaint o lwyddiant. Bu un wraig garedig o Dalybont yn siarad ar y ffôn (ar ran ei ffrindiau) ond roedd yn well ganddo fod yn ddiennw. Diolch iddi.

Blwch Post Newydd

Diolch o galon i bawb a fu’n gymorth i ni gael blwch post newydd yn Llandygái. Bu’n rhaid i’r Swyddfa Bost gau’r hen un gan ei fod yn rhy beryglus i’w ddefnyddio. Roedd wedi cancro y tu mewn - a hynny cyn y Nadolig. Aeth llawer un ar y ffôn i gwyno a bu’r Parchedig Aelwyn Roberts yn siarad â’r wasg, a buan iawn y cafwyd blwch newydd. Diolch yn fawr i’r Swyddfa Bost. Clywais sôn y bydd y blwch yn cael cot o baent hefyd.

Pen-blwydd

Gobeithio fod Erin Jones (4 Llandygái gynt) wedi cael pen-blwydd wrth ei bodd ar Ionawr y

cyntaf. Hawdd iawn yw cofio dy oed Erin, gan iti gael dy eni yn y flwyddyn 2000 a bu dy lun di a’r teulu yn y papur. Llwyddiant mawr i ti yn y dyfodol hefyd.

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Balch iawn ydym o weld Mrs Sue Matthews wedi gwella ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Cymerwch ofal Sue.

Anfonwn ein cofion anwylaf at Mrs Jane Couch, Mr Gwynne Edwards a Mr Harry Gross – gwellhad buan i chwithau hefyd.

Pen-blwydd Arbennig

Roedd Mrs Betty Marshall yn cael ei phen-blwydd arbennig ar 9 Rhagfyr a bu mor ffodus â chael Dau barti. Daeth Sarah a Richard, Robert a Sally, heb anghofio Katie a Thomas i ddathlu gyda hi yn gyntaf. Roedd wrth ei bodd cael gweld y teulu i gyd gyda’i gilydd. Wythnos yn ddiweddarach cafodd barti yn nhŷ Hefina gyda rhai o’i ffrindiau, a phawb wedi

cael amser gwyh. Diolch o galon i chi Hefina. Bydd Katie Marshall, wyres i Betty, yn cael ei phen-blwydd arbennig ar 29 Ionawr pan fydd yn ddeunaw oed. Pen-blwydd hapus Katie, a llwyddiant mawr yn y dyfodol.

Pen-blwydd

Bydd Hannah Louise yn dair oed cyn i Lais Ogwan ddod allan cyn diwedd Ionawr. Bydd yn dathlu ar Ionawr yr wythfed. Gobeithio y cei di ddiwrnod hapus Hannah, ac y bydd yna lond trol o gardiau ac anrhegion iti. Pen-blwydd hapus i Gethin Jones, ŵyr i Hefin a Brenda, y Bryn (gynt), a fydd yn cael ei ben-blwydd yntau ar 8 Ionawr yn bedair oed. Mae Gethin yn byw yn Llundain lle mae Dylan ei dad, a Sue ei fam, yn yr heddlu. Bydd Hefin a Brenda yn derbyn Llais Ogwan bob mis ac yn falch iawn o ddarllen yr holl newyddion.

Gwasanaeth Naw Llith a Charolau

Yn Eglwys Sant Tegai ar nos Sul, 22 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth o Naw Llith a Charolau. Arweiniwyd y Gwasanaeth gan y Parchedig John Matthews gyda Mr Geraint Gill wrth yr organ. Roedd aelodau o’r tair eglwys yn cymryd rhan ac yn cydweithio’n rhagorol. Ar ddiwedd y noson daeth pawb ynghyd yn Neuadd Talgai i flasu gwin mwl Hefina, gyda mins peis, bisgedi a theisennau. Diolch i Nerys a Hefina am drefnu popeth ac i’r merched am helpu.

Gwasanaeth Undebol

Cynhaliwyd gwasanaeth undebol o’r Foreol Weddi yn Eglwys Sant Tegai fore Sul, 29 Rhagfyr. Roedd yn wir ddrwg gennym glywed fod Mr Keith Jones, a oedd i fod i gymryd y gwasanaeth, wedi cael ei daro’n wael a’i fod yn yr ysbyty. Gwellhad buan iddo ac i fam Linda hefyd. Daeth Ann Williams ac Edmond i’r adwy a chawson wasanaeth clodwiw. Diolch i Geraint yr organydd, Rhian, Nerys, Catrin, Brenda, Brian a phawb arall am gymryd rhan hefyd. Roedd croeso yn y neuadd wedyn gan Nerys a’r tîm a chawsom goffi, te a mins peis. Diolch yn fawr i chwi i gyd a Blwyddyn Newydd Dda.

Pwy yw hwn?



Cliw yng ngholofn Rhiwlas ar dudalen 9.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Salwch

Roeddem yn falch iawn o glywed fod Beryl Hughes, Yr Elan, yn cryfhau bob dydd ac yn gallu gwneud ychydig o waith tŷ o dro i dro. Mae’n edrych ymlaen at y gwanwyn a’r haf iddi gael mynd i arddio.

Mae Jim Hughes, ei gŵr, wedi dychwelyd o Ysbyty Royal, Manceinion ar ôl cael rheolydd calon newydd ddiwedd mis Tachwedd. Mae yntau’n dod ymlaen yn dda hefyd. Yr un yw hanes Dr Pam Jones; mae hithau gartref ar ôl ei llawdriniaeth a’r boen wedi lliniaru tipyn. Anfonwn ein cofion anwylaf at bawb sydd yn wael: Ernie a Nerys Coleman, Olwen Latham, Cassie Tindall, Beryl Williams a Dorothy Proudly Williams. Dymunwn adferiad buan i bawb a Blwyddyn Newydd Well!

Diolch

Mae plwyfolion Talybont a fu yn y

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ **600192**

Cyfarchion dechrau Blwyddyn
Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Llais Ogwan gan drigolion Tregarth a’r cyffiniau. Gobeithio y byddwch yn cael Blwyddyn llawn iechyd a bodlonrwydd a chofiwch adael i ni wybod am unrhyw newydd yr hoffech ei roi yn Llais Ogwan. Eich papur chi ydi o a heb gael y straeon ni allwn eu trosglwyddo i’r Llais !

Profedigaeth
Ar 9 Rhagfyr, yn sydyn yn ei gartref, Chwarel Goch Isaf, Tregarth, bu farw Gwyn Williams, neu Gwyn Bangor o roi iddo ei enw ar lafar ac fel aelod o Orsedd y Beirdd, ac yntau’n 88 mlwydd oed. Roedd yn hannu o ardal Glanadda, Bangor, a bu’n gweithio ym maes Ieuenctid gyda’r Urdd a’r Ffermwyr Ifanc cyn iddo ymuno â’r BBC ym Mangor lle y treuliodd y rhan helaeth o’i flynyddoedd gwaith yn trefnu a chynhyrchu rhaglenni megis Talwrn y Beirdd, Sêr y Siroedd, Byd Natur a llawer mwy. Roeddynt i gyd yn rhaglenni poblogaidd a safonol iawn ac roedd Gwyn yn credu’n gryf y dylid mynd allan at y bobol i gynhyrchu rhaglenni radio. Roedd yn gredwr cryf mai ‘Y bobol bia’r cyfrwng’ cyn i’r slogan hwnnw fodoli !!

Gweithiodd Gwyn yn gydwybodol iawn yn y gymdeithas yma yn Nhregarth a Mynydd Llandygai ar hyd y blynyddoedd. Pan aed ati yn 1975 i sefydlu Ysgol Feithrin dan y Mudiad Meithrin yma yn Nhregarth pwy well i fod yn Llywydd na Gwyn. Bu’n aelod o Bwyllgor Canolfan Tregarth o’r cychwyn cynta’ ac ar Gyngor Cymuned Llandygai lle'r oedd parch mawr iddo. Bu ganddo gysylltiad agos ag Ysgol Bodfeurig lle bu’n Llywodraethwr ac yn flaenor yn ei gapel, sef Capel y Presbyteriaid Penygroes, Tregarth.

Bydd bwch mawr ar ei ôl ar yr aelwyd yn Chwarel Goch lle'r oedd mor gartrefol ymysg ei deulu, yr anifeiliaid a byd natur ar ei orau.

Cydymdeimlwn gyda Janet ei briod, yr hogiau Rhys Penrhyn a Rheinallt a’i briod Julie ym Merthyr. Cofiwn yn arbennig hefyd am ei chwaer Falmai (Bryn Cul) sydd mewn cartref gofal ym Mangor ers rhai blynyddoedd a’r holl deulu yn eu galar. Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel Amana (Eglwys St. Ann a St. Mair) Mynydd Llandygái ar 17 Rhagfyr

gyda’r gwasanaeth yng ngofal ei gyfaill y Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy, ac yna yn yr Amlogsgfa ym Mangor.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Bydd y Gangen yn cyfarfod yn Festri Capel Shiloh, Nos Lun, 6 Ionawr pan ddaw Huw Davies, Tŷ Dŵr, Gerlan, i sgwrsio am ei waith yn Antur Waunfawr a hynny am 7.30.

Cofiwch hefyd am y wledd sydd yn ein haros Nos Lun 3 Chwefror am 7.45 o wrando ar yr awdures Angharad Tomos, Penygroes, yn siarad ar y testun ‘Crwydro’. Mae’r noson hon yn agored i’r byd a’r betws ac yn cael ei noddi gan Lenyddiaeth Cymru . Dewch yn llw.

Ar 3 Mawrth bydd y gangen yn mwynhau Noson Gŵyl Ddewi yn y Tŷ Golchi, Bangor gyda swper ac adloniant gan Stephen Rees a’i fand.

Am fwy o fanylion cysylltwch gydag Anwen Griffiths 601262 neu Gwenda Davies 601062.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Rhagfyr

58	Enid Roberts	£15
56	Peter Roberts	£15
18	Carys Williams	£10
12	Sulwen Jones	£5

Llogi Canolfan Tregarth

Os ydych eisiau cynnal gweithgaredd yn y ganolfan,

yna cysylltwch â

Peter Roberts 602123,
Angharad Williams 601544
neu
Rhys Llwyd 601606

Capel Shiloh

Ysgol SUL AM 10.30
OEDFA’R HWYR AM 5.00

12 Ionawr	Parchedig Idris Thomas, Dinorwig
19 Ionawr	Parchedig W.R. Williams, Y Felinheli
26 Ionawr	Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
02 Chwefror	Parchedig Gwynfor Williams.
09 Chwefror	Diacon Stephen Roe, Porthaethwy
16 Chwefror	Parchedig Dafydd Hughes, Caernarfon
23 Chwefror	Trefniant Lleol

Damwain i un o aelodau’r Ysgol Sul
Cafodd Gwenlli Sanderson ddamwain ychydig ddyddiau cyn i’r ysgol gau am wyliau’r Nadolig. Daliodd ei bys yn y drws a bu’n rhaid ei chludo i Ysbyty Gwynedd ac yna i Ysbyty Alder Hay yn Lerpwl i gael llawdriniaeth i’r bys. Bu’n hynod o ddewr ac ymhen yr wythnos roedd wedi gwella’n ddigon da i gymryd rhan Gabriel yn nrama’r Nadolig gyda’r Ysgol Sul. Da iawn chdi Gwenlli. Rwyf i dy ganmol am dy ddewrder.

Cynhaliwyd dau wasanaeth yng Nghapel Shiloh i ddathlu Gŵyl y Nadolig.
Pnawn Sul, 22 Rhagfyr cafwyd gwasanaeth hyfryd dan ofal plant a phobl ifanc yr Ysgol Sul. Unwaith eto eleni cawsom gyfle i weld a chlywed yr hen, hen stori yn cael ei chyflwyno gan y plant oed cynradd, gyda’r bobl ifanc a rhai o’r rhieni hefyd yn cynorthwyo. Cerys a Morus oedd yn cymryd rhan Mair a Joseff. Yr angylion oedd Gwenlli, Nel, Hannah, Gwenno, Ela, Elliw ac Elysteg. Roedd dau fugail bach yn gwneud eu gwaith yn rhagorol, sef, Iestyn a Tomos. Caleb, Shwnamis a Beca oedd y tri brenin o’r dwyrain ac yn cyflwyno o Ddinas Bethlehem roedd Myfi. Diolch o galon i’r bobl ifanc am eu gwaith hynod o ganmoladwy drwy ychwanegu darlleniadau, unawdau a chyflwyniadau offerynnol i’r gwasanaeth. Y darllenwyr oedd Osian, Ifan, Tomos, Huw a Joshua.

Cafwyd unawd gan Aziliz, deuawd ar y soddgrwth gan Elin a Gwenno ac unawd ar y sacsoffon gan Tomos.

Gwasanaeth oedd wrth fodd pawb oedd yn bresennol. I ddilyn, mwynhawyd Te Parti i bawb a daeth Siôn Corn i ddiweddu’r noson i rannu anrhegion i’r plant a’r ieuenctid.

Cynhaliwyd gwasanaeth Noswyl y Nadolig yn Shiloh yng ngofal y Parchedig Gwynfor Williams a’r Parchedig John Matthews a rhannwyd y sacrament o Swper yr Arglwydd yn ystod y gwasanaeth.

Cydymdeimlad
Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Mrs Valmai Evans, Bryn Cul gynt, a nawr o Gartref Ceris, Bangor a’r plant Robin ac Ann Catrin yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr, sef Gwyn Williams, Chwarel Goch Isaf, Tregarth

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Bleddyn Williams a'i bartner Angharad ar achlysur genedigaeth eu mab Osian Emlyn ar 21 Rhagfyr. Mae Bleddyn yn fab i Angharad a Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw, Tregarth.

Dathlu’r Nadolig



Gwasanaeth Nadolig Plant Capel Shiloh, Tregarth.

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎**352835**

Geni
Yn Llydaw, bythefnos cyn y Nadolig, ganwyd merch i Lleuwen Steffan a’i phriod Lan Tang. Yn addas iawn o gofio amser y flwyddyn, fe’i henwyd hi yn Eira, chwaer dderbyniol iawn i Caradog. Dymunwn iddynt iechyd a hapusrwydd fel teulu.

Diolch
Dymuna Eric Jones, 20 Bro Rhiwen ddiolch am yr holl alwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Diolch arbennig i Iona am ei chymwynasgarwch

Dymuno Gwellhad
Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at Mai Williams, 16 Bro Rhiwen sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd (1 Ionawr) ac wedi bod yno ers peth amser. Ein gobaith yw y cawn ei gweld gartref yn fuan.

Ar ôl treulio pythefnos yn yr ysbyty, da yw clywed bod Eric Jones, 20 Bro Rhiwen, adref erbyn hyn. Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at Eric yntau.

Hogyn o Riwlas
Mae’n bleser bob amser clywed am lwyddiant un o blant y pentref. Er iddo symud gyda’i deulu i Gaernarfon pan oedd oddeutu deunaw oed, parhawn i gyfrif yr actor Owain Arthur yn un ohonom ni. Yma y cafodd ei fagu ac yn Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen y derbyniodd ei addysg.

Fel un o Riwlas y mae papur y Daily Post yn ei gyfrif hefyd. Yr oedd tudalen gyfan yn olrhain ei hanes fel actor ar dudalen 6 y papur ar 30 Rhagfyr. Yr hyn a dynnai sylw oedd y pennawd mewn llythrennau breision “West End Star has his sights set on America! The RHIWLAS actor...” Diolch Owain am roddi’r pentref ar y map.

Holi am Hanes Tafarn
Wedi darllen y cyfeiriad at dafarn y *Coach and Horses* yn rhifyn Rhagfyr y Llais, bu nifer yn holi am ei lleoliad yn y pentref. Roedd y dafarn ar y gornel yn union gyferbyn â giât yr Eglwys a chyn troi i’r lôn gefn i gyfeiriad Cefn Braich. Y mae’r ddau adeilad y cyfeirir atynt yn dai erbyn hyn - yr eglwys a’r dafarn.

Ymdeol
Mae Dafydd a Carol Davies, Caeau Gleision, wedi ymddeol o’u gwaith. Dafydd o Amgueddfa Lechi Llanberis lle bu ers llawer blwyddyn yn arddangos crefft y chwarelwr o hollti llechen las i greu llechi i’w rhoi ar wahanol adeiladau. Rhoddodd hyn ddysg a difyrrwch i lawer un a fu’n ei wylïo, yn ymwelwyr ac yn blant o ysgolion y cylch ac o ardaloedd ehangach. Treuliodd Carol flynyddoedd fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd, yn y theatrau yn bennaf. Yn aml, hi fyddai’r wyneb olaf y byddai’r claf yn ei weld cyn cael ei roi mewn trwmgwsg. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus i’r ddau.

Cais am Newyddion
Gan nad wyf yn crwydro’r pentref mor aml ag yr oeddwn yn y cyfnod pan oeddwn yn dosbarthu’r Llais ni chaf wybod cymaint am hynt a helynt pobl. Buaswn yn ddiolchgar felly os rhoddwch wybod imi am unrhyw ddigwyddiad lleol. Mae’r dyddiad y mae’n rhaid i mi anfon newyddion Rhiwlas at y golygydd i’w weld ar ail dudalen y papur. Hoffwn i dderbyn y newyddion o leiaf dridiau cyn hynny.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Cydymdeimlad
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Janet Williams, Rheinallt a Julie a Rhys, Chwarel Goch Isaf yn eu profedigaeth o golli Mr Gwyn Williams, gŵr a thad annwyl iawn. Bydd colled fawr ar ei ôl. Cafwyd gwasanaeth yng Nghapel Amana gyda’r Parchedig Hugh John Hughes ac yna yn Amlogsgfa Bangor. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu.

Diolch
Dymuna Iola a Steff ddiolch i bawb am anrhegion at y Bingo Nadolig. Cafodd y Clwb Ieuencid barti a galwad gan Siôn Corn gydag anrheg i’r plant. Maent yn ddiolchgar i chi yn y pentref. Diolch i Bwyllgor y Neuadd am eu caredigrwydd yn anfon bocs o fisgedi i’r henoed yn y pentref. Maent yn cofio am yr henoed bob blwyddyn. Diolch o galon i chi.

Bydd y gweithgareddau’n aildechrau ym mis Chwefror a bydd eich rhaglen yn y cylchlythyr a anfonir atoch. Diolch i Mr a Mrs Richard am eu gwaith caled ar hyd y flwyddyn.

Eglwys y Santes Ann a’r Santes Fair
 Gwasanaethau
 Ionawr 19: 9.45 Cymun Bendigaid 26: 9.45 Boreol Weddi
 Chwefror 02: 9.45 Gwasanaeth Teuluol 09: 9.45 Cymun Bendigaid (S) 16: 9.45 Cymun Bendigaid 23: 9.45 Boreol Weddi
 Braf oedd gweld cynifer o bobl yng ngwasanaeth Noswyl y Nadolig; diolch i bawb a'n cefnogodd yn ystod y flwyddyn 2013, a dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i chiwi oll.
 Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.
 Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun yn eu cartref cysylltwch â'r Deon Gwlad, y Parchedig John Matthew (364991) neu un o'r gwardeiniaid - Peter Price (601199) neu Jane Williams (600434).

FY NAIN A'I BRODYR A'I CHWIORYDD (Rhan 2)

Bachgen o'r enw Lewys Jones Williams ddaeth ar ôl fy nain. Fe'i ganed ym Mhenrhos, Pwllheli ar y deunawfed o Fehefin 1889. Roedd yn fachgen galluog ac fe dderbyniodd ei addysg gynradd yn Ysgol Genedlaethol Pwllheli ond yn 1902 pasiodd ei arholiad fynediad i Ysgol Sir Pwllheli lle bu'n ddisgybl am bum mlynedd gan basio yn ei arholiadau derbyn i’r Brifysgol gyda rhagoriaeth yn Saesneg, Cymraeg, Hanes Cymru ac Arlunio. Yn wir, fe enillodd wobr am arlunio yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1906 yn ogystal ag mewn mân eisteddfodau eraill tra'n ddisgybl yn Ysgol Sir Pwllheli. Roedd Lewys yn dipyn o lyfrbryf hefyd - yn union fel ei chwaer, Maggie Jones Williams.

Aeth Lewys i Brifysgol Bangor rhwng 1909 a 1912 lle bu'n dilyn cwrs gradd B.A. tra'n ceisio ennill Tystysgrif Bwrdd Addysg y cyfnod ar yr un pryd i'w gymhwyso ar gyfer bod yn athro. Tra'n y Brifysgol bu'n dilyn cwrs mewn Lladin ac Athroniaeth am un flwyddyn ac Almaeneg am ddwy flynedd. Roedd Lewys yn ŵr egniol oherwydd roedd yn aelod o Bwyllgor Cynrychioli Myfyrwyr yn y Brifysgol yn ogystal â bod yn gapten Clwb Rhwyfo'r sefydliad. Roedd hefyd yn aelod o gangen Corff Hyfforddi Swyddgion y Brifysgol a chyn iddo adael y coleg roedd wedi ennill Tystysgrif "A" y Swyddfa Ryfel.

Ym mis Hydref 1912, fe ddechreuodd Lewys Jones Williams ar ei ddyletswyddau fel dirprwy brifathro yn Ysgol Eglwys Loegr, Tregarth, a oedd ar y pryd dan brifathrawiaeth y diweddar William Brock. Roedd cant a phump deg tri o blant yn mynychu gwersi yn yr ysgol y flwyddyn honno a deuai pump ohonynt o blwyf Llanllechid. Roedd o’n un da am gadw trefn ar ei ddisgyblion yn yr ysgol a’r pryd hwnnw roedd yn lletya yn Gorffwysfa, Ffordd Tanrhiw, Tregarth nepell o gartref William Brock y prifathro yn Sunnyside ar bwys hen orsaf Tregarth .

Roedd Lewys yn egin-fardd o fri. Gallai gynganeddu'n rhwydd a'i gyfaill pennaf oedd David Ellis o Fferm Penyfed, Llangwm. Bydd y cyfarwydd yn gwybod mai ef oedd gwrthrych y nofelig Ffarwel Weledig gan Cynan. Byddai Lewys a David Ellis a aeth ar goll yn y Rhyfel Mawr, yn gohebu'n gynganeddol gyda'i gilydd o dro i dro.

Gan fod tân gwladgarwch yn llosgi ym mynwes Lewys Jones Williams, fe wnaeth ymgais aflwyddiannus ddwywaith neu dair i ymrestru fel milwr cyn cael ei dderbyn yn aelod o fyddin yr Arglwydd Kitchener yn Wrecsam ym mis Medi 1914. Roedd wedi bod yn ddirprwy brifathro yn Ysgol Eglwys Loegr, Tregarth, am ddwy flynedd ond yn anffodus fe’i lladdwyd ar faes y gad yn Ffrainc dridiau cyn y Nadolig 1915 ac fe gafodd ei gladdu gan ei gyfeillion mewn mynwent eglwysig y diwrnod canlynol.

Rywdro wedi i'r Rhyfel Mawr ddod i ben, fe gafodd ei gorff ei ail gladdu yng nghanol Mynwent Filwrol Lijssenthoek lle y gorwedd o hyd. Hi yw'r fynwent filwrol fwyaf ond un yng Ngwlad Belg. Mae ei enw wedi ei naddu ar y goflech a osodwyd ar yr ochr dde i lidiardau dur Mynwent Eglwys Y Gelli, Tregarth, i goffâu lladdedigion y ddau Ryfel Byd. Mae wedi'i goffâu hefyd mewn llythrennau codi ar blac efydd yng nghyntedd Neuadd Pritchard Jones, ym Mhrifysgol Bangor.

Dyma sut y coffawyd Lewys Jones Williams gan y diweddar fardd Robert Williams Parry a'i hadwaenai:

**Lewis annwyl sy a'i wyneb - heb ddim gwên,
Heb ddim gair i'm hateb;
Diffwrth enaid ffraethineb
Roed i oer lawr daear wleb**

Bachgen o'r enw David Larsing Williams oedd brawd ieuengaf Maggie Jones Williams, fy nain. Ef a ddilynodd Lewys Jones Williams yn nhrefn dyddiadau geni’r teulu. Roedd ef dair blynedd yn iau na Lewys, ei frawd. Athro ydoedd wrth ei alwedigaeth ond bu hefyd yn filwr. Ymunodd â'r fyddin ym mis Awst 1914 ond,ymhen fawr o dro wedi iddo gael ei ddanfôn i Gallipoli gyda Byddin Ymgyrchol Môr y Canoldir, fe ddechreuodd gwyno fod ganddo waed a mwcs yn ei stôl a chafwyd ei fod yn dioddef o'r cryd yn ogystal â dysentri a bu'r bib arno am amser maith. Gan fod yr awdurdodau milwrol yn brawychu wrth ei weld yn bwrw bloneg yn gyson o ganlyniad i'w waeledd, fe'i danfonwyd yn ôl i'r Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd 1915 am driniaeth ond gorfu iddynt ei ryddhau o'r fyddin oherwydd gwaeledd ym mis Rhagfyr 1916.

Bu David Larsing Williams yn dilyn cwrs hyfforddi athrawon yng Ngholeg Normal, Bangor o fis Medi 1916 tan fis Mawrth 1917. Ail-ymunodd â'r Fyddin ym mis Gorffennaf 1917 ond fe gafodd ei rhyddhau'n derfynol o'r Fyddin ym mis Chwefror 1919.

Roedd yn ôl ar y cwrs hyfforddi athrawon yng Ngholeg Normal, Bangor, o fis Ebrill 1919 tan fis Gorffennaf 1920. Wedi hynny bu'n dysgu mewn ysgol yn Nantwich am dair blynedd ac yn Runcorn am bedair blynedd ar ddeg arall. Wn i ddim pa bryd y bu farw David Larsing Williams ond gwn mai gŵr di-briod ydoedd a'i fod wedi cael ei gladdu ym Mynwent Penrhos yn yr un bedd â Maggie Jones Williams a'i gŵr a dau arall.

Eunice Augusta Williams oedd chwaer ieuengaf fy nain. Fe'i ganed hi yn 1897 ac athrawes ydoedd hithau wrth ei galwedigaeth. Erbyn y 1980au cynnar roedd hi wedi symud i Sussex i fyw gyda'i hepil.

Dafydd Llewelun gynt o Dregarth

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1865-1866

1865

- Dros ugain o gymdeithasau adeiladu ym Methesda, a hefyd ‘a Savings Bank, Insurance Schemes, five different Friendly Societies and the Caellwyngrydd Lending Society’.
- 09/05/1865: Allan o 26 o dafarnwyr, dim ond tri a wrthododd lofnodi deiseb i gau’r tafarnau ar y Sul.
- 06/1865: Chwarelwyr y Penrhyn yn streicio ond yn dychwelyd ar ôl 14 diwrnod.
- 09/1865: Sefydlu Undeb Chwarelwyr y Penrhyn a 1800 o ddynion yn ymuno.
- 03/09/1865: Pregethu am y tro olaf yn hen Eglwys St. Ann (a gladdwyd dan domennydd Chwarel y Penrhyn yn fuan wedyn). Y Parchedig Morris Hughes a weinyddai ac ef hefyd oedd wedi traddodi’r bregeth gyntaf yn yr hen eglwys.

- 05/09/1865: Agor Eglwys newydd St. Ann ym Mryneglwys. Costiodd £4000 i’w hadeiladu.
- 08/1865: W. J. Parry a dirprwyaeth o’r chwarelwyr yn cyfarfod Edward Gordon Douglas Pennant. Yntau’n gorchymyn W. J. Parry i gyflwyno George Sholto, ei fab, i’r gweithwyr, ac yn ychwanegu: ‘Tell them to beware not to offend George, for if they do he will never forgive; he can never forgive ... It is so, George, is it not?’ Atebodd George Sholto: ‘Let them try, and they will see’.
- 12/1865: Dileu Undeb Chwarelwyr y Penrhyn ar ôl bygythiad gan y Cynrol Pennant.

1866

- ‘Y mae hen balas Coetmor yn awr yn adfeiliedig, heb do, heb ffenestri, ac y mae peth ohono wedi syrthio ...’.
- George Sholto Douglas Pennant yn cymryd lle ei dad fel Aelod Seneddol i gynrychioli Sir Gaernarfon.
- W. J. Parry ac eraill yn sefydlu Cyfarfodydd Llenyddol Eglwysi Bethesda, Trefflys a Saron (a Salem yn 1871). Mewn grym tan 1879.
- W. J. Parry yn sefydlu Llyfrgell Ysgol Sabothol Bethesda, ‘un o’r rhai cyntaf, os nad y gyntaf, o lyfrgelloedd a sefydlwyd ynglŷn ag Ysgol Sul yng Ngogledd Cymru’.
- Dydd Gŵyl Ddewi: Eisteddfod Cymreigyddion Bethesda.
- 02/04/1866: Agor Capel Trefflys (A), ar dir a roddwyd yn rhodd gan David Roberts (Alawydd). Costiodd £930 i’w godi. Tynnwyd i lawr yn 1974.
- 23/06/1866: Agor Capel y Tabernacl (B) ar Allt Pen-y-bryn, gyda 120 o aelodau ar dir a roddwyd yn rhodd gan Humphrey Ellis, Tai’r Meibion, perchennog Stad y Cefnfaes.
- 03/08/1865: Edward Gordon Douglas Pennant yn cael ei urddo’n ‘Baron Penrhyn of Llandegai’.

- Cyhoeddi Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid, Hugh Derfel Hughes, 160tt., Swyddfa ‘Yr Ardd’, Bethesda. Argraffwyd 600 o gopïau.
- Dim llai na 3000 o gyhoeddiadau’n dod yn fisol i blwyfi Llanllechid a Llandegai (a hynny’n ychwanegol at y degau o Esboniadau, Geiriaduron, y Gwyddoniadur, etc. a werthid yn y Dyffryn).

Dyma’r rhai Cymraeg:

- Yn chwarterol:** Y Traethodydd; Y Beirniad;
- Yn fisol:** Y Drysorfa; Trysorfa’r Plant; Y Dysgedydd; Y Cronicl; Yr Ardd; Yr Eglwysydd; Yr Eurgrawn; Y Winllan; Y Greal; Yr Haul; Y Gwyliedydd; Y Cyfaill Eglwysig;
- Yn wythnosol:** Baner ac Amserau Cymru; Yr Herald Cymraeg; Cronicl Cymru; Y Byd Cymreig.

Dyma’r rhai Saesneg:

- Yn wythnosol:** Sunday School Times; Good Words; London Journal; Children’s Friend; Caernarvon and Denbigh Herald; North Wales Chronicle; Liverpool Mercury; News of the World; Lloyd’s Weekly; Reynold’s Illustrated London News; Weekly Times; Public Opinion; Saturday Review; Penny Illustrated Paper; British Workman; Cassell’s Illustrated Paper;
- Yn ddyddiol:** Times; Daily News; Standard; Morning Star; Liverpool Mercury.

- 10/1866: W. J. Parry yn sefydlu Dosbarth Beiblaidd yn ei gartref.

I’w barhau

Wu Shu Kwan
Bocsio Cic Tsiaeneaid



Dyma lun o Jade Fitzpatrick, 16 oed o Rhes Ogwen, Bethesda, yn derbyn ei thystysgrif dysgu “Black Belt” oddi wrth y “Grand Master” C. K. Chang yn Llundain.

Bellach, mae Jade yn dysgu ei dosbarth Wu Shu Kwan ei hunan yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher o 6.30 tan 8.30. Os hoffech chi roi cynnig arni, hen neu ifanc, galwch heibio’r dosbarth neu ffoniwch 01248 602416.

Plaid Lafur
Dyffryn Ogwen

Ar ddiwedd mis Tachwedd aeth nifer o’r aelodau i weld y ffilm “Ysbryd 1945” a ddangoswyd yn y Galeri, Caernarfon. Noddwyd y Noson gan Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) a da oedd gweld cymaint o oedolion ifanc yn bresennol.

Ar ddechrau mis Rhagfyr cynhaliwyd Ffair Nadolig flynyddol y gangen, gan wneud elw sylweddol i goffrau’r gangen. Am y tro cyntaf, cynhaliwyd yr achlysur yng Nghaffi Coed y Brenin am fod Neuadd Ogwen wedi cau dros dro. Hoffai’r gangen ddiolch i Karen a’i staff am y gymwynas ac i Bronwen Jones am helpu bob mis.

Tua chanol y mis aeth nifer o aelodau’r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon ym Methel i drafod y ddogfen bolisi am y berthynas rhwng y Plaid Lafur a’r undebau ac am y cynnig i ddefnyddio etholiadau rhagarweiniol (fel a geir yn Unol Daleithiau America) mewn rhai etholiadau cyhoeddus. Etholwyd Louise Prendergast (Isgadeirydd yr etholaeth) o Fynydd Llandygái i gynrychioli Arfon mewn cynhadledd arbennig yn Lloegr i drafod barn yr aelodau a’r undebau. Cyflwynwyd potel o Champagne i Owein Prendergast (ei gŵr) am recriwtio’r nifer mwyaf o aelodau newydd yn Arfon eleni.

Am fod pum nos Fercher ym mis Ionawr, atgoffir yr aelodau bod cyfarfodydd misol y gangen yn cael eu cynnal ar y bedwaredd nos Fercher bob mis ac nid ar nos Wener olaf y mis.

Mae’n fwriad cynnal te parti Arfon ar ddydd Sul tua diwedd mis Ionawr ac ocsiwn addewidion tua dechrau mis Mawrth. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn bresennol neu mewn ymrwymo i addewid dylech gysylltu â Godfrey Northam, ysgrifennydd y gangen.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Canolfan Cefnfaes BETHESDA GYRFA CHWIST

Ionawr 28
Chwefror 11 a 25
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Yn Festri Capel Shiloh
Nos Lun 3 Chwefror am 7.45

ANGHARAD TOMOS

yn sgwrsio ar y testun

"CRWYDRO"

Croeso mawr i'r cyhoedd
ddod i'r noson yma.

Noddwyd gan
LLENYDDIAETH CYMRU

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
10am - 2pm

8 Chwefror

Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

8 Mawrth

Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

Bwydydd, Creffttau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

7.00 o'r gloch
Nos Lun 10 Chwefror 2014
yn Festri Capel Jerusalem

Arwel Jones

'Cythraul y Bêl Gron'

£1.50 wrth y drws
neu am ddim i aelodau

Caffi Coed y Brenin

Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Sadwrn 15 Chwefror
10.00 - 12.00

Mynediad £1.00

Festri Capel Jerusalem

Cyfarfod Blynyddol Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Nos Fercher 29 Ionawr
am 7.30 yr hwyr

Croeso Cynnes i Bawb

Canolfan Cefnfaes Bore Coffi Cylch Meithrin Cefnfaes

25 Ionawr 2014
10.00 - 12.00

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick
Bethesda
11.00 - 12.00
Dydd Sadwrn
cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs
Douglas Arms
Bethesda
20.00 - 21.00
Trydydd Nos Lun
pob mis



PRIF SWYDDOG £25,000

Mae Partneriaeth Ogwen am benodi ei aelod cyntaf o staff, sef Prif Swyddog, a fydd yn gyfrifol, ar y cychwyn, am holl weithgaredd y cwmni. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys clercio i rai o Gyngorau Cymuned Dyffryn Ogwen, cydlynu prosiectau'r Bartneriaeth, gweinyddu nifer fechan o eiddo ar rent, cydweithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol, a datblygu strategol ar gyfer y dyfodol.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â gweledigaeth glir ynghylch datblygiad gynaliadwy'r Bartneriaeth, gyda dealltwriaeth o waith cymunedol, ac o reoli prosiectau a chyllid.

Cymraeg yw iaith weinyddol Partneriaeth Ogwen.

Manylion pellach a ffurflen gais:

Morudd Roberts, Partneriaeth Ogwen,
1 Rhos y Nant, Bethesda, Gwynedd. LL57 3PP
07795 250300
cyngorllanllechid@gmail.com

Dyddiad cau: Dydd Gwener 31^{ain} Ionawr



NOSON O ADLONANT YNG NGHWMNI

Y TRI DIGRI A HOGIA'R BONC

£25 YN CYNNWYS

COCTEL WRTH GYRRAEDD A
CHINIO TRI CWRS O FLAS CYMRU
Dydd Gwener 24ain Ionawr, 2014

Ar gyfer bwcio neu am fanylion pellach cysylltwch â :

Gwen Owen
Rhelowr Cyfarfodydd, Digwyddiadau a Gwerthiant
Gwesty Y Royal Fictoria
Llanberis
Gwynedd. LL55 4TY
Ffôn : 01286 873 403
E Bôst : sales@theroyalvictoria.co.uk
Gwefan : www.theroyalvictoria.co.uk

Nyth y Gân

Y Gadwyn

Dwy linach yn ei dolenni, yn dal
Dau deulu'n hir wrthi;
Daeth hiraeth wedi'i thorri
A bwlch mawr sy'n awr i ni.

Adfail

Yr hil garodd yr aelwyd lle bu tân,
Lle bu tiwn a bywyd,
Nawr dan we mae'r lle mor llwyd
Yn nyrsio hen, hen arswyd.

Y Dderwen a'i Phlant

Un hen oedd hi, dros ganmlwydd oed,
A bu'n frenhines yn y coed;
Fe gafodd nifer fawr o blant
A'u siglo wnaeth uwch sŵn y nant.

Yr awel ysgafn garai hon
Fel y câi ddawnsio ynddi'n llon
A denodd yno ar ei brig
Aelodau brwd o gôr y wig.

Fe fethodd gwyntoedd brwnt a blin
Ddarganfod ble yr oedd y rhin
A gadwai'r plant mor dynn wrth fam
Fel na bo'r un yn derbyn cam.

Di-ildio oedd y dderwen gref
I'r stormydd cryfaf ddaeth o'r nef,
Ond mellten lwyddodd ymysg braw
I'w hollti'n ddwy a'i rhoi'n y baw.

Ond ni chadd aros am yn hir
I orwedd yno ar y tir;
Fe'i gwelwyd hi gan ŵr trwy'r berth
A gwyddai hwnnw ei gwir werth.

Fe wnaeth ohoni grud gwerth chweil
Â'i gadarn bren o hyd a ddeil
I siglo plant y tŷ yn awr
Yn ddiogel yno ar ei lawr.

Y Gwyddonydd

Awchus uwch cyfrinachau hir y gell
Yw'r gŵr â'i adnoddau,
A bydd ryw ddydd yn rhyddhau
Daioni ei chadwynau.

Dafydd Morris

Pwy yw hwn?



Gawsoch chi'r ateb?

Dyma'r actor Owain Arthur o Riwlas sydd ar hyn o bryd yn difyrru cynulleidfaoedd yn theatrau'r West End yn Llundain.
Pob lwc iti yn dy yrfa Owain.

CHWILAIR IONAWR 2014
BRENHINOEDD

A	A	W	F	H	S	O	L	O	M	O	N	R	I	E	J	L	C	M	B
V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W
H	A	D	W	J	N	I	N	E	R	B	M	A	I	E	B	A	U	Z	M
X	T	F	F	I	A	R	Y	N	I	N	E	R	B	C	A	S	I	S	J
V	A	D	D	N	A	P	E	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	E	Q
H	Z	G	R	H	C	U	M	H	M	W	N	O	Y	R	I	A	H	S	Z
U	E	T	F	D	X	A	U	P	O	W	R	H	C	Q	H	O	W	E	H
O	Y	R	E	E	O	G	E	O	M	B	H	E	P	T	S	T	C	B	B
C	U	U	O	B	J	P	L	T	M	I	O	V	V	A	D	C	B	B	F
R	F	O	O	D	G	J	V	I	I	R	R	A	F	X	I	M	H	T	T
O	S	R	K	O	P	W	R	C	M	K	C	F	M	B	O	R	C	X	V
R	E	Y	H	S	T	M	R	E	F	Y	A	J	D	Z	H	B	C	D	W
J	O	S	C	R	A	I	X	N	I	T	L	X	J	J	M	B	W	D	T
E	X	M	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Y	Z
J	E	H	O	R	A	M	B	R	E	N	I	N	J	W	D	A	Q	F	R
O	C	T	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	A	N
A	H	A	B	B	R	E	N	I	N	I	S	R	A	E	L	L	R	D	V
O	L	E	A	R	S	I	N	I	N	E	R	F	N	Y	I	R	M	O	G
J	P	W	P	G	A	H	A	S	E	I	A	S	O	W	J	J	Q	U	L
F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z

Y mis yma mae enw DEUDDEG BRENIN i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddarganfod y gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH), acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwila'r dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW. Erbyn **5 Chwefror**. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi darganfod y deuddeg yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Yng ngwasanaeth olaf y flwyddyn yn Eglwys Bethlehem Talybont fe ddywedodd y Parchedig Trefor Jones, Caernarfon, fod yna nifer helaeth o Frenhinoedd wedi eu henwi yn y Beibl, felly rwyf wedi dewis deuddeg ohonynt i chwi ei darganfod.

Dyma atebion Rhagfyr:- Angylion, Anrhegion, Cardiau, Celyn, Crud, Doethion, Drama'r Geni, Geni'r Iesu, Gwasanaeth Nadolig, Sion Corn, Twrci, Uchelwydd.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:- Elizabeth Buckley, Tregarth; Doris Shaw, Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydlas, Bethesda; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch, Pwllheli; Herbert Griffiths, Tregarth; Eirlys Edwards, Bethesda.

Enillydd Rhagfyr oedd:- Herbert Griffiths 46 Bro Syr Ifor, Tregarth, LL57 4AS.

ebost: gwion@dioni.co.uk
tel: 01341 247 200



"CYSYLLTWCH Â NI I
HYRWYDDO EICH BWTHYN
GWYLIAU"



OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260
07761619475



www.owenswales.co.uk



SGAFFALDIAU Cyf.

SCAFFOLDING Ltd.



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWYR
NEU DDAMWAIN

 **600723**
Ffacs: 605068

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG


BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

Sefydlwyd 1969



m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
 600633
 (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Ymgymwrwr adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

 **01248 601052**

Bryan Jones

*Clirio tai
Mân-weithiau
Cludiant ysgafn*

(Waeth pa mor fychan y dasg)
Ffôn: 01286 673121
Ffôn Lôn: 07527634023

e-bost: bryanrajonesandson@yahoo.co.uk
www.facebook.com/bryanrajonesandson



Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164



BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Y BWTHYN TE pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 1500. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTALA
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwtwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN ♦ YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Croesair Ionawr 2014

AR DRAWS

- 7 Mynd yn ôl efo Llew cyn troi i'r llyn (6)
- 8 Edafedd (anagram) (6)
- 9 "Tynged yr Iaith" (8)
- 10 Cân i un (4)
- 11 Prydydd breuddwydiol Y Lasynys (4,4)
- 14 Rhych yr aradr (4)
- 15 Gwahoddwr i'r llan (4)
- 16 Clodfori (8)
- 17 Gorchwyl gwenynwr (4)
- 19 Cristion e.e. (8)
- 21 Er y lwc, ffrae fawr a gafodd (6)
- 22 Ai doeth ei wneud yn rhagorol bros ben (6)

I LAWR

- 1 Sylfaenydd un o grefyddau mwyaf Asia (4)
- 2 "- - - - - cyn y storm"; y tawelwch o flaen drycin (1,7)
- 3 Gwel nain mai dryslyd ac aneglur iawn yw'r esboniad (8)
- 4 Canol tref y cofis (4)
- 5 Iawn a phriodol (4)
- 6 Tallyllyn, Ffestiniog, Llyn Padarn, Wyddfa, etc. (8)
- 12 Sefydlydd a chychwynnydd (8)
- 13 Cyfeiriad yr aderyn di-gartref pan ddaw'r gwanwyn (8)
- 14 Llauer iawn o bob math o bethau (4,1,3)
- 18 Mae tir iddo yn y pentref agosaf i 4 I Lawr (4)
- 19 Fe'i llosgid mewn odyd (4)
- 20 Wedi denu yn ôl bydd ar ben ei hun (4)

ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2013

AR DRAWS 1

- Cenllysg, 5 Mellt, 7 Medru, 8 Dilety
- 10 Lili, 11 Ceisiant, 13 Cegaid,
- 14 Comedi, 17 Efengylau, 19 Emyr,
- 21 Yn aros, 22 Organ, 23 Drych,
- 24 Loetran.

I LAWR

- 1 Camel ac Oen, 2 Nadolig, 3 Y Sul,
- 4 Gadael, 5 Melysion, 6 Lletya, 9 Y Tri
- Brenin, 12 Difyrwrch, 15 Edmygwr,
- 16 Parsel, 18 Einir, 20 Bore


Dyma ni'n croesawu'r flwyddyn newydd, a diolch i'r rhai ohonoch a anfonodd eich cyfarchion.

Tybed mai prysurdeb y tymor oedd i gyfrif am lai nag arfer o gynigion yn Rhagfyr ?

Ond diolch i'r canlynol am eu hatebion hollol gywir : Gareth William Jones, Bow Street; Ann Carran, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Ellen Whitehouse, Birmingham; Elfed Evans, Llanllechid; Dulcie Roberts, Tregarth; E.E. Roberts, Llanberis.

Ond y cyntaf allan o'r het, ac sy'n ennill y wobr, oedd cynnig Karen Williams, 15 Henbarc, Llanllechid, Gwynedd LL57 3RS. Da iawn chi.

Ni chafodd neb holl groeseiriau 2013 yn hollol gywir, ond yr agosaf i'r brig oedd Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch ac Elfed Evans a Karen Williams, Llanllechid. Canmoladwy iawn !



Atebion erbyn dydd Mercher, 5 Chwefror 2014 i: 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:
Cyfeiriad:

Clwb Criced a Bowlio BETHESDA

Lôn Newydd, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT

ClwbCricedBethesda (01248) 600833 CricedBethesdaCricket@outlook.com



Lleoliad Gwych ar gyfer Pob Achlysur

Cyfleusterau gwych ar gael i fudiadau, cymdeithasau a thrigolion.

Partïon, Bedydd, Cyfarfodydd, Gigs, Digwyddiadau, Cynadleddau, Priodasau a llawer mwy.....

I logi'r clwb ar gyfer unrhyw achlysur galwch i mewn, ffoniwch neu e-bostiwch,

Cyfleusterau: 3 ystafell fawr / 2 far / Llwyfan / Cegin, gyda chyfarpar / Digon o le parcio / Snwcer, Pŵl, Dartiau

I glywed mwy am ddigwyddiadau a chynigion y clwb a chael eich ychwanegu at gylchrediad e-byst y Clwb, e-bostiwch: CricedBethesdaCricket@outlook.com

Oriau Agor Presennol

- Dydd Sul: 8pm i 12am
- Dydd Llun: Ar Gais
- Dydd Mawrth: Ar Gais
- Dydd Mercher: Ar Gais
- Dydd Iau: 8pm i 12am
- Dydd Gwener: 7am i 12am
- Dydd Sadwrn: 7pm i 12am

Dyddiau ac amseroedd hyblyg ar gael ar gyfer llogi'r clwb

Caban Cysgu Beiciau i'w llogi



Am fwy o
wybodaeth
Cysylltwch ar
01248 605573

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

MODURON PANDY Cyf.

Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Lexcel

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturrs@googlemail.com

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â
Mantell Gwynedd



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Côr Meibion y Penrhyn

Mae prysurdeb cyfnod y Nadolig drosodd bellach a'r holl garolau a'r cyfeddach yn cael gorffwysu am flwyddyn arall. Uchafbwynt y dathlu i ni oedd y cyngerdd Nadolig mawr a drefnwyd gan y Daily Post yn yr Arena ger Feniw Cymru, Llandudno i godi arian at Tŷ Gobaith. Roedd y neuadd enfawr yn llawn i'w hymylon gyda dros 900 o bobl wedi dod draw i fwynhau gwledd o ganu Nadoligaidd.

Gio Compario

Seren y noson oedd Wynne Evans y tenor operatig o Gaerfyrddin, sy'n fwy cyfarwydd inni oll fel Gio Compario, y gŵr sy'n hysbysebu'r wefan cymharu prisiau ar y teledu. Canodd Wynne gyda'r holl artistiaid eraill drefniant o "Winter Wonderland" yn y Gymraeg gan Cefin Roberts, ac yna canodd ddwy gân arall cyn y diwedd.

Braint i holl aelodau Côr y Penrhyn oedd cael rhannu llwyfan gyda artistiaid mor dalentog â Wynne Evans, Elin Fflur, cyflwynydd y noson, a Peter Karrie y Cymro o Fro Morgannwg sydd wedi gwneud enw iddo'i hun ar lwyfannau Llundain fel unawdydd mewn sioeau mor enwog a Phantom of the Opera. Cawsom hefyd gwmni Côr y Wiber o Gastell Newydd Emlyn, Côr Ysgol Bro Aled, Band Jas Ysgol Tryfan, Elan Meirion merch yr enwog Rhys Meirion a Steffan Morris chwaraewr soddgrwth talentog o Gastell Nedd sydd yn sicr yn un o sêr y byd cerddorol yn y dyfodol

Bendigedig

Canodd y côr “Bendigedig” gan Robat Arwyn a “Pererin Wyf” ar drefniant o “House of the Rising Sun” gan ein harweinydd Owain Arwel, a gellir clywed y ddwy gân ar ein CD diweddaraf “Anthem.” Yn ogystal ag arwain y côr ar y noson roedd Owain Arwel hefyd yn arwain Band Jas Ysgol Tryfan ac yn arwain y gynulleidia i ganu rhai o’r carolau Nadolig cyfarwydd – mae prysurdeb ein harweinydd yn ddi-ball!

Teledwyd y cyfan gan Rondo i'w darlledu ar S4C a gobeithio i chi gael cyfle i weld a chlywed y cyfan dros y Nadolig. Blwyddyn Newydd Dda i holl garedigion y côr ac i'n holl ddarllenwyr.

Rhaglen John Ogwen

Mwynhodd y côr le amlwg yn y rhaglen am “yr hogyn o Sling” hefyd a darlledwyd honno ddechrau’r mis. Roedd y côr wedi cael gwahoddiad i ganu ‘Mardi Gras ym Mangor Ucha’ trefniant Alun Llwyd o gân a wnaed yn enwog gan Bryn Fôn a Tshotoloz a i drefniant Owain Arwel. Tystiodd nifer o bobl fod hon yn un o’r rhaglenni gorau a ddarlledwyd dros yr ŵyl ac mae’n brawf pellach bod enw’r côr yn mynd ar led gan fod treniadau i ni fynd i Derby ym mis Ebrill. Bydd mwy am hynny yn y rhifynnau nesaf.



Aelodau'r côr yn y stiwdio yng Nghaerdydd adeg recordio rhaglen John Ogwen

YSGOL YRRU

DerfeL

07982 076 455

01248 605 325

derfelowen@sky.com



Haulfryn - Llanllechid

Marchnad Ogwen

Drapia! Sach liain a lludw! Roedd Marchnad Ogwen y Nadolig mor brysur a hwyliog, dyma anghofio'n llwyr am dynnu llun a chael pwt o hanes un o'r Stondinau i ddarllenwyr y Llais. Henaint!

Cawsom Farchnad ardderchog gydag awyrgylch Nadoligaidd yn llawn bwrlwm. Daeth Siôn Corn heibio a rhannu melysion a rhoi gwên ar wynebau'r hen blant. (Plant da iawn oedd yn y Farchnad hefyd gyda llaw). Diolch am alw Siôn Corn a da deall eich bod wedi mwynhau'r mins peis.

Mae ein dyled yn fawr i ferched Y Boncathod am greu nawws mor hyfryd i'r Farchnad drwy ganu carolau i ni. Roeddynt yn rhoi eu hamser yn rhad ac am ddim ac yn casglu arian tuag at yr Ambiwylans Awyr. Da iawn chi genod a llawer o ddiolch.

Ond mae ein diolch pennaf i chi ein cwsmeriaid - rhai ohonoch yn dod yn ffyddlon bob mis i'n cefnogi. Daliwch ati!

Bydd y Farchnad nesaf Chwefror 8fed yn y Clwb Rygbi. Croeso cynnes i bawb wrth gwrs.

Y gangen leol o'r NSPCC sy'n cynnal y Stondin Elusen mis Chwefror. (Mis Mai yw'r nesaf sydd ar gael).
Gellir cysylltu â ni ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk neu Facebook a Twitter.

Blwyddyn Newydd Dda i holl gwsmeriaid y Farchnad a llawer o ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod 2013.

Tywydd Garw

Mae'n werth cadw mewn cof y trefniadau sydd gan y Cyngor ar adegau o dywydd garw.

Mae gwefan y Cyngor yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd yn ystod cyfnodau o dywydd garw, a pan fo'r Swyddfa Dywydd yn rhybuddio fod tywydd garw ar y ffordd.

Cadwch olwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor yn ogystal â'r dudalen Tywydd Garw www.gwynedd.gov.uk/tywyddgarw am yr arweiniad diweddaraf.

Mae'r wybodaeth yn cynnwys:

- Ysgolion sydd ar gau oherwydd y tywydd
- Llyfrgelloedd sydd ar gau oherwydd tywydd garw
- Ffyrdd sydd wedi eu heffeithio
- Cyngor i'r cyhoedd ar sut i gadw'n ddiogel

YSGOL DYFFRYN OGWEN, BETHESDA

Yn eisiau cyn gynted â phosib

TECHNÏGYDD
GWYDDONIAETH, DYLUNIO A THECHNOLEG A
LLYFRGELLYDD

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn awyddus i apwyntio person brwdfrydig ac egniol i weithio fel Technegydd Gwyddoniaeth. Disgwylir i'r sawl a benodir weithio yn bennaf fel

Technegydd Labordai yn y gyfadran Wyddoniaeth yn ogystal â chynorthwyo yn yr ystafelloedd Dylunio a Thechnoleg ac yn Llyfrgell yr ysgol ar adegau penodol.

Bydd dyletswyddau gweinyddol penodol hefyd yn rhan o'r swydd.

Oriau gwaith : 32½ awr yr wythnos

(39 wythnos y flwyddyn tymor ysgol gan gynnwys dyddiau
Hyfforddiant Mewn Swydd).

Graddfa Cyflog: Telir cyflog yn unol ag Amodau Gwaith ar gyfer
Gweithwyr Llywodraeth Leol Raddfa GS5, pwyntiau 14 - 17 sef
£11,957 - £12,797 y flwyddyn, yn ôl profiad a chymhwyster.

Ffurflen gais a manylion ychwanegol am y swydd i'w cael gan y
Swyddog Gweinyddol, Mrs Nerys Williams, Ysgol Dyffryn Ogwen,
Ffordd Coetmor, Bethesda, . Bangor. Gwvnedd LL57 3NN

Ffôn:01248 600291

Ffacs:01248 600082;

e-bost: sg@dyffrynogwen.gwynedd.sch.uk,

ac i'w ddychwelyd i'r ysgol erbyn

hanner dydd, Dydd Gwener, 31ain Ionawr, 2014.



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

**STEPHEN
JONES**
†
**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun - Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 - 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00
01248 600219

www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)**

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

**Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)**

**Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd**

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

LONDIS BETHESDA

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos**

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

LLanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

GAIR O'R DOSBARTH


Ysgol Dyffryn Ogwen

Te prynhawn Nadolig Ysgol Dyffryn Ogwen 2013



Eto'r flwyddyn hon bu'r te prynhawn yn llwyddiant. Croesawyd dros 90 o'r henoed lleol i'r ysgol am brynhawn o luniaeth ysgafn ac adloniant. Roedd y lluniaeth wedi cael ei baratoi gan grŵp Lletygarwch blwyddyn 10, a bydd eu perfformiad yn mynd at eu cymhwyster lefel 2 BTEC. Gyda diolch i rai o'r busnesau lleol am eu cyfraniad tuag at y raffl, Lindys, Siapir, Cigydd Ogwen, Mabinogion, Copa, Fferm Bronydd, Dŵr y Mynydd, Tesco, Becws Dwyran a'r Dyn Llysiau. Heb eu cyfraniad ni fuasem wedi gallu cynnal y te Nadolig.

Taith Manceinion



Ar 18 Rhagfyr bu nifer o ddisgyblion blynyddoedd 8, 9 a 10 a'r daith i weld sioe gerdd West Side Story yn y Palace Theatre ym Manceinion. 'Roedd y disgyblion wedi cyffroi yn lân yn cael mynd i siopa a chael cinio yng Nghanolfan Siopa Trafford yn ystod y bore. Roeddent wedi gwirioni mwy fyth wrth gael profiad bythgofiadwy yn gwyllo'r sioe gerdd enwog gan Leonard Bernstein yn ystod y prynhawn.

Pantomeim

Bu holl ddisgyblion blwyddyn 7 yn gweld perfformiad o'r pantomeim 'Sleeping Beauty' yn Llandudno yn ystod yr wythnos olaf. Yr oedd yn berfformiad lliwgar, bywiog a swnllyd yn unol â thraddodiad y pantomeim Nadoligaidd, ac yr oedd y disgyblion a'r aelodau o staff, wedi cael bore difyr iawn. Diolch i'r adran Saesneg am drefnu.

Yr Adran Addysg Gorfforol

Mae'r Tîm rygbi dan 14 wedi ennill cynghrair ysgolion Arfon eleni ar ôl curo pob gêm. Yna, mewn gêm derfynol rhwng enillwyr ysgolion Arfon ac enillwyr ysgolion Môn llwyddodd y tîm i guro Ysgol Llangefni o 53 i 0. Bydd y tîm nawr yn chwarae yng nghwpan Cymru ar ôl y Nadolig.

Cynhaliwyd twrnameint Badminton ysgol gyfan ar ddydd Iau 19 Rhagfyr. Roedd y llysgenhadon chwaraeon yn gyfrifol am sgorio a threfnu'r gystadleuaeth a gwnaethant ymdrech penigamp ohoni.

Dyma'r canlyniadau -

Bl 7 - 1af - Lowri Ford	2il - Cerys Thomas	3ydd - Beca Nia
Bl 8 - 1af - Sophie Ellis	2il - Nia George	3ydd - Catrin Williams
1af - Sion Davies	2il - Mathew Buchanan	3ydd - Kieron Bullock
Bl 9 1af - Manon Jones	2il - Jade Roberts	3ydd - Sophie Davies
1af - Tomos Griffiths	2il - Owen Wilberforce	3ydd - Les Florence
Bl10 1af - Sam Lewis	2il - Manon Williams	3ydd - Alys Haf
1af - Aled Owsianka	2il - Iago Davies	3ydd - Chris Bareham

Ysgol Tregarth

Croeso

Croeso mawr yn ôl i Mrs Cerys Roberts yn dilyn ei chyfnod mamolaeth a diolch i Mrs Fflur Roberts am ei holl waith tra yng ngofal Dosbarth Ogwen. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd gyda'r Comisiynydd Iaith.

Daeth yn amser ffarwelio ag Iriati o Wlad y Basg. Bu Iriati yma gyda ni yn yr ysgol am nifer o wythnosau gan gynorthwyo mewn amryw o ddosbarthiadau. Ei dymuniad yw bod yn athrawes. Pob hwyl iddi a siwrne saff yn ôl i Wlad y Basg.

Cinio a pharti Nadolig

Buom yn gwledda ac yn mwynhau llond platiau o fwyd blasus yn y cinio Nadolig ac wedyn yn y parti. Diolch yn fawr iawn i Anti Shirley ac Anti Fiona am weithio mor galed i baratoi cinio blasus iawn i bawb. Cawsom ymweliad gan Siôn Corn yn ystod y parti a diolch iddo yntau am allu dod i'n gweld yn ystod cyfnod mor brysur!

Cyngerdd Nadolig

Cafwyd cyngerdd Nadolig gwerth chweil unwaith eto eleni gyda'r capel yn llawn sŵn canu gwych. Adroddwyd hanes y stori fawr, sef y geni, ac roedd pob plentyn wedi dysgu eu gwaith yn arbennig o dda. Diolch i Jones and Whitehead am eu cymorth gyda'r llwyfan ac i swyddogion Capel Shiloh am eu cyd-weithrediad eto eleni.

Ffair Nadolig

Cafwyd ffair Nadolig lwyddiannus iawn eleni. Diolch o galon i'r Cyfeillion newydd a oedd wedi gweithio'n galed iawn i sefydlu pwyllgor a threfnu'r ffair. Diolch yn arbennig i Mrs Nikola Gale a Mr Mark Gray am gyd-drefnu'r cyfan. Diolch i'r cwmni ai lleol canlynol am eu rhoddion hael, yn cynnwys Pant-yr-Ardd, Morrisons, Mary Freeman a Phlas Ffranccon. Diolch i chi gyd am gefnogi a llwyddwyd i godi £714.18. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod eto i drefnu digwyddiad arall yn fuan - croeso cynnes i bawb.

Ymweliadau Nadolig



Cafodd pob dosbarth gyfle i fynd ar nifer o ymweliadau cyn diwedd y tymor gan fwynhau yn fawr. Dyma ychydig o'r hanes...

Dosbarth Idwal (Meithrin a Derbyn) - Cawsom brynhawn i'w gofio pan aethom i Lanberis am daith ar y trên i weld Siôn Corn. Roedd pawb wrth eu boddau ar y trên a chael cyfle i ddweud wrth Siôn Corn eu bod wedi bod yn blant da trwy'r flwyddyn!

Dosbarth Llywelyn (Blwyddyn 1) – Fe aethom am drip Nadoligaidd i Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis i wrando ar nifer o storiâu Cymreig. Roedd pawb wedi mwynhau creu addurn Nadolig gyda gweithwyr yr Amgueddfa, diwrnod bythgofiadwy!

Dosbarth Dafydd (Blwyddyn 2) – Cawsom ymweld â Chapel y Ffynnon ym Mangor er mwyn clywed neges beth yw gwir ystyr y Nadolig. Cafwyd hwyl yn gwrando ar y stori ac ymuno yn y gweithgareddau. Diolch yn fawr i aelodau'r Capel am y gwahoddiad a'r croeso.

Dosbarth Tryfan ac Ogwen (Blwyddyn 3 a 5+6) - Profiad gwych oedd mynychu coedwig Castell Penrhyn er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau Nadoligaidd a mwynhau bod allan yn yr awyr agored. Tafwys cyfle i wneud addurniadau Nadolig hardd.

Dosbarth Ffrydlas (Blwyddyn 4+5) – Fel rhan o'n gwaith ar drychinebau naturiol cawsom y fraint o gael cwmni Mr Gwyn Angell, gŵr sydd â chysylltiadau agos iawn â Haiti. Cawsom hanes y wlad a'r gwaith sy'n cael ei wneud yno ar hyn o bryd. Diolch iddo am roi o'i amser i ddod i sgwrsio â ni.

Ysgol Bodfeurig

Dymuniadau Gorau

Hoffem ddymuno yn dda i Mrs Helen Evans, sydd wedi bod yn bennaeth safle yn yr ysgol am y chwe blynedd ddiwethaf, ac yn aelod gwerthfawr iawn o'r staff yma ym Modfeurig. Roedd Mrs Evans yn addysgu'r dosbarthiadau meithrin, derbyn a blwyddyn 1. Fe fydd yr ysgol yn gweld colled mawr hebddi. Dymuniadau gorau i chi yn y dyfodol Mrs Evans!

Hoffai'r ysgol hefyd ddymuno yn dda iawn i Miss Ceri Davies sydd wedi bod yn gweithio gyda blynyddoedd 4, 5 a 6. Mae Miss Davies wedi bod yn rhan o dîm Bodfeurig ers tymor yr haf, rydym wedi mwynhau cael cwmni Miss Davies yn ystod ei chyfnod o addysgu yma ym Modfeurig. Pob hwyl i chi yn y dyfodol!

Croesawu

Hoffem groesawu dau aelod newydd o staff i'n hysgol y tymor hwn sef Miss Lliwen Owen a Miss Susan Owen.

Fe fydd Miss Lliwen Owen yn ymgymryd â swydd pennaeth safle yn yr ysgol ac yn addysgu blynyddoedd 4,5 a 6. Pob hwyl i chi yn eich swydd newydd Miss Owen. Mae'r staff yn edrych ymlaen at eich croesawu.

Fe fydd Miss Susan Owen yn dod i'r dosbarth babanod am gyfnod ac yn addysgu dosbarthiadau meithrin, derbyn a blwyddyn 1. Dymuniadau da iawn i chi Miss Owen yn eich swydd newydd!

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd ffair Nadolig flynyddol yr ysgol yn ddiweddar. Diolch I'r holl staff, rhieni a ffrindiau'r ysgol am eu holl waith called ac am wneud y noson yn bosib. Rydym wedi codi dros £400 gyda chymorth y gymdeithas rieni.

Ymweliad Capel y Ffynnon

Cafodd blynyddoedd 2 a 3 ymweld â Chapel y Ffynnon ym Mangor yn ddiweddar. Yno cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgareddau Nadoligaidd gan ddysgu am stori'r geni, a chymryd rhan mewn drama a chanu. Roeddynt wrth eu boddau yn cael gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Yn y llun gwelir Heidi a Jacob, blwyddyn 3 yn barod i gymryd rhan yn nrama stori'r geni.



Ymweliad Mr Ian Cook i flwyddyn 4,5 a 6.

Diolch yn fawr iawn i Mr Ian Cook am ddod i'r ysgol i gynnal sgwrs gyda'r plant am drydan. Mae Ian Cook yn dad y Meical Cook sydd erbyn hyn yn ddisgybl blwyddyn 6 yn yr ysgol. Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu am y daith mae trydan yn ei deithio o'r ffatri i'n cartrefi yn ogystal â pheryglon trydanol sy'n codi. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn dysgu sut i greu cylchedau amrywiol, gan fynd ati hefyd i greu tortsh bychan. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn gwneud yr holl weithgareddau. Diolch yn fawr iawn unwaith eto Mr Cook.

Ysgol Abercaseg

Siôn Corn ym Methesda!



Treuliodd plant y dosbarth derbyn fore bendigedig yn ymweld â gŵr arbennig iawn yn siop Tesco Bethesda! a'r gŵr arbennig yma oedd Siôn Corn wrth gwrs! Roedd y plant wedi gwirioni wrth gael 'roeddynt yn gobeithio a fyddai yn eu sachau fore Nadolig! Bu Siôn Corn yn hynod o glên gyda'r plant drwy roi anrheg i bob un ohonynt. Fel arwydd o'u gwerthfawrogiad canodd y plant garol iddo cyn ymadael a'r siop Diolch i staff Tesco,am drefnu'r cyfan.

Cystadleuaeth 'Llun Nadolig' Tesco.

I'r rhai hynny ohonoch a wnaeth eich siopa Nadolig yn Tesco Bethesda. Daeth disgyblion yr ysgol i'r brig yn yr holl categorïau mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Tesco a derbyniodd y buddugwyr wobrau hael gan y cwmni. Llongyfarchiadau mawr i chwi i gyd.



Dyma lun o'r enillwyr (Owain Williams, dosbarth meithrin yn absennol pan dynnwyd y llun)

Cyngerdd Nadolig

Roedd ffrwyth llafur holl ddisgyblion yr ysgol, o'r ieuengaf i'r hynaf, yn cael ei arddangos ar lwyfan Ysgol Dyffryn Ogwen, mewn neuadd a oedd dan ei sang, pan fu'r plant yn perfformio'r sioe Nadolig. Roedd thema'r sioe yn seiliedig ar y gwahanol olygfeydd a geir ar gardiau Nadolig. Yn ôl y gymeradwyaeth a gafwyd ar ddiwedd y perfformiad roedd y gynulleidfa wedi mwynhau'n arw Diolch i Brifathro a staff Ysgol Dyffryn Ogwen am y croeso a'r gefnogaeth â gawsom yn ystod yr ymarfer ac ar noson y perfformiad a diolch hefyd i'r rhieni am ddarparu gwisgoedd bendigedig ac i 'Gyfeillion Ysgol Abercaseg' am drefnu'r raffl.

Canu Carolau

Un o ddefodau blynyddol yr ysgol yw i ddisgyblion blwyddyn 2 ymweld â gwahanol fannau o fewn y gymuned i ddiddanu'r cyhoedd drwy ganu carolau. Eleni y lleoliad oedd Tesco, Bethesda ac yn wahanol i'r arfer, bu i'r plant berfformio ar y cyd gyda disgyblion Ysgol Pen y Bryn. Mwynhaodd pawb y profiad o ganu a diolch i staff Tesco ac i'r siopwyr prysur am eu gwrandawriad a'u croeso cynnes.

Sioe Nadolig Cyw

Roedd yr ysgol yn llawn o blant cynhyrfus iawn ar 17 Rhagfyr gyda phawb yn methu disgwyl i gael teithio ar y bws i Langefni i weld Sioe Nadolig Cyw. Cyfareddwyd y plant wrth wyllo'r sioe a gweld eu hoff gymeriadau yn y cnawd!! Bu sawl un yn canu cân rap Donna Direidi am ddyddiau wedyn ac ambell un yn dynwared Ben Dant, y Môr Leidr, ymysg llawr o gymeriadau poblogaidd eraill Cyw. Darpar actorion S4C efallai?

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen



Dyma lun o Catrin Wager a fu'n annerch y Gymdeithas ar nos Lun, 9 Rhagfyr, ar Prosiect Penrhyn.

Bu'n sôn am rai o'r dogfennau diddorol y daeth ar eu traws wrth iddi gatalogio archifau Castell Penrhyn.

Yn y llun hefyd mae llywydd y noson, y Dr. Dafydd Roberts.



O ‘Tŷ Ni’

Blwyddyn newydd - calendr newydd! Dwi'n sgwennu hwn ar Ionawr 1af a newydd roi calendr 2014 Llais Ogwan ar y wal. Beth fuasai ein tynged heb galendr? Dyn a wŷr.

I Julius Cesar mae'r diolch yn bennaf fod gennym y wyrth yma yn ei ffurf bresennol. Roedd yr hen Eifftiaid, Rhufeinwyr a'r

Groegwyr wedi darganfod 365¼ diwrnod mewn blwyddyn filoedd o flynyddoedd yn ôl. Yr Aifft yn seiliedig ar yr haul a'r Groegwyr wedi creu cylch o 8 mlynedd yn seiliedig ar y sêr.

Fe fu Cesar yn ymweld â'r Aifft a thrafod creu calendr. Wedi dychwelyd i Rufain a galw ynghyd y gŵyr doeth, mathemategwyr a seryddwyr, dyma greu calendr a does dim syndod mai fel y Calendr Julian yr adnabwyd y calendr hwn. Mae'n rhyfeddol meddwl eu bod wedi gosod y nifer o ddyddiau ym mhob mis fel y maent heddiw ac 1 diwrnod ychwanegol bob 4 blynedd - blwyddyn naid.

Ond yn 1582, sylweddolwyd fod yn rhaid newid rhywfaint ar bethau. Wrth sylwi ar gyhydnos


Mawrth, pan mae dydd a nos yr un hyd, roedd Calendr Julian yn ennill 11 munud bob blwyddyn!

Roedd y calendr 10 diwrnod allan ohoni erbyn 1582. Gregory X11 oedd y Pab ar y pryd a chyda doethion yr oes, crëwyd y Calendr Gregoraidd sydd ar wal tŷ ni a thŷ chi heddiw. Ac nid yn unig ar y wal chwaith, ar gyfrifiaduron, ffôn symudol, clociau ac yn y blaen. Diolch i'r bonheddwyr Cesar ynte.

Newid yn y drefn

A bod yn onest, siomedig fu'r ymateb i 'Tŷ Chi'. Diolch o galon i'r ychydig rai fu'n cyfrannu. O hyn ymlaen, dewch i 'Tŷ Ni' gydag unrhyw gyfraniadau, a bydd croeso cynnes i chi. Yn dilyn sgwrs gyda ffrindiau yn ddiweddar, buom yn trafod "esgusodion". Felly, dyma gynnig pwnc trafod / sgwennu i chi. Dyma un gen i i gychwyn. Roedd un o'r hogia' acw wedi cael gorchymyn i dynnu llun yn yr ysgol. 'Doedd y nesaf peth i ddim ar ei bapur ond ychydig o farciau yn un gornel. Yr eglurhad oedd mai llun o eira mawr oedd ar y papur ac mai'r marciau bach oedd ôl traed cwningen oedd wedi mynd i'w thwll! Sylwch mai 'egllurhad' ddywedais, dim 'esgus' Mae gwahaniaeth mawr rhwng eglurhad, rheswm, ac esgus! Edrych ymlaen am gyfraniadau diddorol

Cysylltwch â Mrs. J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN neu jan@erwlas.freeseerve.co.uk.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

williamshy@parliament.uk